

DINAS A SIR ABERTAWE
DATGANIAD O EGWYDDORION
DEDDF GAMBLO 2005

(POLISI GAMBLO)

MYNEGAI

Rhagair	3
1.0 Amcanion Trwyddedu	3
2.0 Cyflwyniad	4
3.0 Ardal Ddaearyddol Dinas a Sir Abertawe	5
4.0 Ymgygoreion	5
5.0 Awdurdodau Cyfrifol	6
6.0 Partïon â Buddiant	6
7.0 Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu	7
8.0 Cyfnewid Gwybodaeth	8
9.0 Gorfodi	9
10.0 Hawliau Sylfaenol	10
11.0 Integreiddio Strategaethau	11
12.0 Trwyddedau Mangreoedd	11
13.0 Diffiniad o Fangreoedd	12
14.0 Mangreoedd Parod ar gyfer Gamblo	13
15.0 Lleoliad	14
16.0 Goruchwylwyr Drws	14
17.0 Dyblygu gyda Chyfundrefnau Rheoleiddio Eraill	15
18.0 Casinos	15
19.0 Egwyddorion Cyffredinol - Mangreoedd Casino	17
20.0 Cais Casino Cam 1	18
21.0 Egwyddorion i'w cymhwyso i Casino Cam 2	18
22.0 Cais Casino Cam 2	19
23.0 Mangreoedd Bingo	20
24.0 Mangreoedd Betio	21
25.0 Traciau	21
26.0 Canolfan Hapchwarae Oedolion	23
27.0 Canolfan Adloniant Teulu Trwyddedig	23
28.0 Ffeiriau Teithio	24
29.0 Datganiadau Dros Dro	25
30.0 Adolygiadau	25
31.0 Hawlenni/Hysbysiad o Ddefnydd Dros Dro ac Achlysurol	27
32.0 Canolfannau Adloniant Teulu Didrwydded	27
33.0 Mangreoedd Trwyddedig i gyflenwi Alcohol	27
34.0 Hawlenni Hapchwarae Clwb	29
35.0 Hapchwarae am Wobr a Hawlenni Hapchwarae am Wobr	30
36.0 Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro	30
37.0 Hysbysiadau o Ddefnydd Achlysurol	31
38.0 Cofrestru Loteriau Cymdeithasau Bach	31
39.0 Amcanion Trwyddedu	31
40.0 Asesiadau Risg Lleol ar gyfer Gweithredwyr	35
41.0 Proffiliau o Ardal Leol	36
42.0 Gwneud Penderfyniadau	36

DINAS A SIR ABERTAWE

43.0	Gweithdrefn Apelau	36
44.0	Rhesymau am Benderfyniadau	37
45.0	Gweithredu Penderfyniad y Llys Ynadon	37
46.0	Pryderon ynghylch Mangreoedd Trwyddedig	37
47.0	Rhwydwaith Rhannu Gwybodaeth – Gweithredwyr	37
48.0	Gwybodaeth Bellach	38
Atodiad A Map o Ddinas a Sir Abertawe		39
Atodiad B Ymgylgoreion		40
Atodiad C Egwyddorion a Meini Prawf		41 - 48
Atodiad CH Tabl Dirprwyo Swyddogaethau Trwyddedu		49 – 50

DINAS A SIR ABERTAWE

DINAS A SIR ABERTAWE

POLISI GAMBLO

IONAWR 2022 – IONAWR 2025

Rhagair

O dan Ddeddf Gamblo 2005 (y Ddeddf), mae Dinas a Sir Abertawe yn gyfrifol am drwyddedu mangreoedd a rhoi nifer o hawlenni gwahanol ynghyd â hysbysiadau defnydd dros dro a defnydd achlysurol.

Yn ôl y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu hefyd baratoi a chyhoeddi datganiad o egwyddorion y bwriada eu cymhwyso wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae'r datganiad hwn yn ffurfio mandad yr Awdurdod Trwyddedu ar gyfer rheoli darpariaeth gamblo leol ac mae'n amlinellu disgwyliadau'r Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â gweithredwyr â mangreoedd yn yr ardal leol. Rhaid i'r datganiad hwn, a adwaenir fel y Polisi Gamblo (Y Polisi), gael ei adolygu, bod yn destun ymgynghori a'i gyhoeddi bob tair blynedd. Paratowyd y Polisi yn unol ag Adran 349 y Ddeddf gan gyfeirio at y Canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo. Mae ffurf y Polisi wedi'i hamlinellu yn Ndeddf Gamblo 2005 (Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Datganiad Polisi Awdurdod Trwyddedu)(Cymru a Lloegr) 2006.

Bwriedir i'r Polisi hwn gynorthwyo ymgeiswyr, trigolion, busnesau lleol ac ymgynghorion statudol, ac arwain swyddogion a Phwyllgorau Trwyddedu yn eu rôl gwneud penderfyniadau.

1.0 Amcanion Trwyddedu

1.1 Wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu. Mae'r rhain fel a ganlyn:-

- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi troseddu;
- Sicrhau bod gamblo'n digwydd mewn modd teg ac agored;
- Diogelu plant a phobl agored i niwed eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio drwy gamblo.

1.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol, yn unol ag Adran 153 y Ddeddf, wrth wneud penderfyniadau am drwyddedau mangre a

DINAS A SIR ABERTAWE

hysbysiadau o ddefnydd dros dro, y dylai geisio caniatáu'r defnydd o'r fangre at ddiben gamblo i'r graddau ei fod yn meddwl bod hynny:

- yn unol ag unrhyw Godau Ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;
- yn unol ag unrhyw Arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;
- yn unol â Pholisi'r Awdurdod; ac
- yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu.

2.0 Cyflwyniad

2.1 Dinas a Sir Abertawe yw'r Awdurdod Trwyddedu o dan y Ddeddf.

2.2 Rhaid cyhoeddi'r Polisi o leiaf bob tair blynedd. Daw'r Polisi hwn i rym ar 31 Ionawr 2022 a bydd yn weithredol hyd nes 30 Ionawr 2025. Gellir adolygu'r Polisi "o dro i dro" a rhaid ymgynghori ar unrhyw rannau diwygiedig. Rhaid ailgyhoeddi'r Polisi wedyn.

2.3 Lle bydd angen diweddariadau oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth genedlaethol, arweiniad statudol neu fanylion cyswllt, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cadw'r hawl i ddiwygio'r Polisi hwn heb ymgynghori lle bydd angen sicrhau bod y Polisi'n adlewyrchu deddfwriaeth genedlaethol neu arweiniad statudol.

2.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn datgan bod y Polisi hwn wedi'i baratoi gan roi ystyriaeth i ddarpariaethau'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo (Y Canllawiau), yr amcanion trwyddedu yn y Ddeddf ac unrhyw ymatebion gan y rheiny yr ymgynghorwyd â nhw. Mae'r holl gyfeiriadau at Y Canllawiau yn cyfeirio at y Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Mai 2021 ac unrhyw ddiweddariadau dilynol.

2.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod y gall fod angen iddo wro oddi wrth y Polisi hwn a'r Canllawiau mewn amgylchiadau unigol ac eithriadol, a lle bydd yr achos yn teilyngu penderfyniad o'r fath er budd hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gwneir unrhyw benderfyniad o'r fath drwy ymgynghori ag ymgynghorwyr cyfreithiol priodol yr Awdurdod Trwyddedu, a chofnodir y rhesymau dros unrhyw wriad o'r fath yn llawn.

2.6 Cafodd y Polisi hwn ei gymeradwyo mewn cyfarfod y Cyngor ar 2 Rhagfyr 2021 ac fe'i cyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2021.

Mae'r Polisi hwn ar gael ar wefan Dinas a Sir Abertawe yn www.abertawe.gov.uk

DINAS A SIR ABERTAWE

- 3.0 Ardal Ddaearyddol Dinas a Sir Abertawe
- 3.1 Mae Dinas a Sir Abertawe yn cwmpasu arwynebedd 379.7 o gilometrau sgwâr, ac mae ganddi boblogaeth o 246,600 o bobl; hi yw ail ddinas fwyaf Cymru. Mae rhyw ddwy ran o dair o ffin y Cyngor gyda'r môr. Yn fras, gellir rhannu Dinas a Sir Abertawe yn 4 ardal ffisegol. Yn y gogledd, mae Ucheldir Lliw yn cyflwyno nodwedd rhostir agored; Penrhyn Gŵyr yn y gorllewin, sef tirwedd wledig gydag arfordiroedd cyferbyniol a chasgliad o bentrefi bach; y ganolfan drefol a maestrefol yn ymestyn o Abertawe i Gorseinon a Phontarddulais; a'r llain arfordirol o amgylch Bae Abertawe, nad yw'n fwy na 2 filltir o led.
- 3.2 Mae ardal drefol y Ddinas a'r Sir yn canolbwyntio'n bennaf ar Abertawe ac yn ymestyn i'r gorllewin a'r gogledd o ganol y ddinas o amgylch Bae Abertawe i'r Mwmbwls; dros Townhill i Gwmbwrla, Treboeth, Fforestfach a Phenlan; trwy Uplands, Sgeti, Cilâ a Dynfant; ar hyd cymunedau Cwm Tawe, sef Hafod, Glandŵr, Plasmarl, Treforys i Glydach; ac ar ochr ddwyreiniol yr Afon o SA1, St Thomas i Bonymaen, Llansamlet a'r Gellifedw.
- 3.3 Mae'r ail ffocws trefol yn canolbwyntio ar driongl Tregŵyr, Gorseinon a Chasllwchwr, ynghyd â chymunedau cyfagos Pontarddulais a Phenllergaer.
- 3.4 Gwasanaethir Dinas a Sir Abertawe gan 24 o gynghorau cymuned.
- 3.5 Atodir map o ardal y Cyngor yn Atodiad A. Gellir cael rhagor o wybodaeth am Abertawe trwy dudalen we'r Cyngor <https://www.abertawe.gov.uk/ffeithiauallweddol>
- 4.0 Ymgynghoreion
- 4.1 Ymgynghorodd yr Awdurdod Trwyddedu yn eang ar y datganiad hwn rhwng 20 Medi 2021 ac 8 Hydref 2021 cyn ei gwblhau a'i gyhoeddi. Ymgynghorwyd â'r canlynol:-
- Heddlu De Cymru;
 - Cynrychiolwyr personau sy'n cynnal busnesau gamblo o fewn ardal yr Awdurdod Trwyddedu yr effeithir arnynt gan y Polisi hwn;
 - Personau/cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan yr Awdurdod Trwyddedu yn arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf a chan y Polisi hwn.

DINAS A SIR ABERTAWE

- 4.2 Dangosir rhestr lawn ond nid ddisbyddol o ymgygoreion yn Atodiad B.
- 5.0 Awdurdodau Cyfrifol
- 5.1 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu dan reoliadau i ddatgan yr egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth arfer ei bwerau o dan Adran 157(h) y Ddeddf i ddynodi, yn ysgrifenedig, corff sy'n gymwys i gynghori'r awdurdod am amddiffyn plant rhag niwed. Yr egwyddorion yw:
- yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n cwmpasu ardal gyfan yr Awdurdod Trwyddedu;
 - yr angen i'r corff fod yn atebol i bobl a etholwyd yn ddemocrataidd, yn hytrach nag unrhyw grŵp sydd â buddiant penodol.
- 5.2 Yn unol â'r Canllawiau, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dynodi Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Dinas a Sir Abertawe at y diben hwn.
- 5.3 Mae manylion cyswllt yr holl Awdurdodau Cyfrifol o dan y Ddeddf ar gael drwy wefan y Cyngor yn https://www.swansea.gov.uk/media/22790/Responsible-authorities-in-regard-to-the-Gambling-Act-2005/pdf/Responsible_authorities_in_regard_to_the_Gambling_Act_2005.pdf
- 6.0 Partïon â Buddiant
- 6.1 Gall partïon â buddiant gyflwyno sylwadau ynghylch ceisiadau am drwyddedau, neu wneud cais am adolygu trwydded bresennol ar sail y tri amcan trwyddedu a nodir ym mharagraff 1.1 y Datganiad Polisi hwn. Diffinnir y partïon hyn yn Adran 158 y Ddeddf fel a ganlyn:
- 6.2 "At ddibenion y Rhan hon, o ran cais am drwydded mangre neu ynghylch hynny, mae person yn barti â buddiant os ydyw, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu sy'n cyflwyno'r drwydded neu sy'n derbyn y cais, yn berson-
- a) sy'n byw yn ddigon agos at y fangre y bydd yn debygol yr effeithir arni gan y gweithgareddau awdurdodedig;
 - b) sy'n meddu ar fuddiannau busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt; neu'n
 - c) sy'n cynrychioli personau sy'n bodloni paragraff (a) neu (b)"
- 6.3 Mae rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu ddatgan yr egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth arfer ei bwerau o

DINAS A SIR ABERTAWE

dan Ddeddf Gamblo 2005 i benderfynu a yw person yn barti â buddiant.

6.4. Yr egwyddorion yw:

- Penderfynir ar bob achos ar sail ei rinweddau;
- Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymhwyso rheol gaeth wrth wneud ei benderfyniadau;
- Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr enghreifftiau o ystyriaethau a ddarparwyd yn y Canllawiau;
- Bydd penderfyniadau ar drwyddedau mangreuedd a hysbysiadau defnydd dros dro yn cael eu gwneud yn unol â'r Canllawiau;
- Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, yn unol â'r Canllawiau, yn sicrhau y dehonglir yr ymadrodd "sydd â buddiannau busnes" yn yr ystyr ehangaf posibl a chynnwys partneriaethau, elusennau, grwpiau ffydd a meddygfeydd.

6.5 Mae'r Canllawiau yn datgan y gallai'r rheiny sy'n cynrychioli personau sy'n byw yn agos i'r fangre neu sydd â buddiannau busnes gynnwys cymdeithasau masnach, undebau llafur, cymdeithasau trigolion a chymdeithasau tenantiaid. Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu, fodd bynnag, yn gweld y cyrff hyn fel partion â buddiant yn gyffredinol oni bai bod ganddynt aelod y gellir ei ddisbarthu yn berson â buddiant o dan delerau'r Ddeddf e.e. mae'n byw yn ddigon agos at y fangre i fod yn debygol o gael ei effeithio gan y gweithgareddau y ceisir trwydded ar eu cyfer.

6.6 Gall partion â buddiant fod yn bersonau sydd wedi'u hethol yn ddemocratiaidd fel Cynghorwyr, Aelodau Cynulliad Cymru ac Aelodau Seneddol. Ni fydd angen tystiolaeth benodol o gais i gynrychioli person â buddiant ar yr amod bod y Cynghorydd etc yn cynrychioli'r Ward y mae'n debygol yr effeithir arni. Yn yr un modd, ystyrir bod Cynghorau Plwyf y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn bartion â buddiant. Heblaw am y personau hyn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu, yn gyffredinol, yn mynnu cael tystiolaeth ysgrifenedig bod person 'yn cynrychioli' rhywun sydd naill ai'n byw'n ddigon agos at y fangre y mae'n debygol y bydd y gweithgareddau awdurdodedig yn debygol o effeithio arni, a/neu fuddiannau busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt. Mae llythyr gan un o'r personau hyn, yn gofyn am y gynrychiolaeth, yn ddigonol.

6.7 Os yw unigolion yn dymuno mynd at Gynghorwyr i ofyn iddynt gynrychioli eu barn, yna dylid gofalu nad yw'r Cynghorwyr yn rhan o'r Pwyllgor Trwyddedu sy'n delio gyda'r cais am drwydded. Os oes

DINAS A SIR ABERTAWE

unrhyw amheumon, cysylltwch â'r Adran Drwyddedu. Rhoddir y manylion cyswllt ym mharagraff 48 isod.

7.0 Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu

7.1 O dan y ddeddf, mae'n ofynnol i Awdurdodau Trwyddedu:

- Fod yn gyfrifol am drwyddedu mangreoedd lle bydd gweithgareddau gamblo'n cael eu cynnal, trwy roi Trwyddedau Mangreoedd;
- Rhoi Datganiadau Dros Dro;
- Rheoleiddio clybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr sydd am gynnal rhai gweithgareddau hapchwarae trwy roi Hawlenni Hapchwarae Clwb a/neu Hawlenni Peiriannau Clwb;
- Rhoi Hawlenni Peiriannau Clwb i Glybiau Masnachol;
- Caniatáu hawlenni ar gyfer defnyddio rhai peiriannau hapchwarae am symiau bach penodol mewn Canolfannau Adloniant Teulu didrwydded;
- Derbyn hysbysiadau gan fangreoedd â thrwydded alcohol (o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) i ddefnyddio dau beiriant hapchwarae neu lai;
- Rhoi Hawlenni Peiriannau Hapchwarae Mangreoedd Trwyddedig ar gyfer mangreoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu/gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre drwyddedig, o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, lle ceir mwy na dau beiriant;
- Cofrestru loteriau sy'n loteriau cymdeithasau bach islaw trothwyau rhagnodedig.
- Rhoi Hawlenni Hapchwarae am Wobr;
- Derbyn a Chymeradwyo Hysbysiadau Defnydd Dros Dro;
- Derbyn Hysbysiadau o Ddefnydd Achlysurol;
- Darparu gwybodaeth i'r Comisiwn Gamblo am fanylion y trwyddedau a roddwyd;
- Cynnal cofrestru o'r hawlenni a'r trwyddedau a roddir dan y swyddogaethau hyn.

7.2 Dylid nodi na fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ymwneud â thrwyddedu gamblo o bell. Cyfrifoldeb y Comisiwn Gamblo fydd hwn, drwy drwyddedau gweithredu. Rheoleiddir gwasgar-fetio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, a rheoleiddir y Loteri Genedlaethol gan Gomisiwn y Loteri Genedlaethol.

7.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod mai dim ond un modd o hyrwyddo cyflawni'r tri amcan trwyddedu yw'r swyddogaeth drwyddedu o ran gamblo, felly ni ddylid ei gweld fel modd i ddatrys yr holl

DINAS A SIR ABERTAWE

broblemau o fewn y gymuned. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu felly'n parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos, Heddlu De Cymru, Partneriaeth Abertawe Ddiogelach, busnesau lleol, pobl leol a'r rhai sy'n gysylltiedig ag amddiffyn plant er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fel y'u hamlinellwyd. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod ei ddyletswydd o dan Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, o ran atal trosedd ac anhrefn.

8.0 Cyfnewid Gwybodaeth

8.1 Yr egwyddor y bydd y Cyngor yn ei chymhwyso mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r Comisiwn Gamblo a'r cyrff hynny sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 6 y Ddeddf, yw y bydd yn gweithredu'n unol â darpariaethau Deddf Gamblo 2005, sy'n cynnwys y ddarpariaeth nad eir yn groes i'r ddeddfwriaeth diogelu data, fel y'i diffinnir yn adran 3 Deddf Diogelu Data 2018. Rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth hefyd i unrhyw arweiniad a ddarperir gan y Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol ynghylch y mater hwn, yn ogystal ag unrhyw reoliadau perthnasol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan y pwerau a ddarperir yn Neddf Gamblo 2005.

9.0 Gorfodi

9.1 O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i Awdurdodau Trwyddedu ddatgan yr egwyddorion sydd i'w cymhwyso gan yr Awdurdod wrth arfer y swyddogaethau o dan Ran 15 y Ddeddf mewn perthynas ag archwilio mangreoedd; a'r pwerau o dan Adran 346 y Ddeddf i gychwyn achos troseddol mewn perthynas â'r tramgwyddau a nodwyd.

9.2 Egwyddorion Dinas a Sir Abertawe yw y bydd yn cael ei arwain gan y Canllawiau ac y bydd yn ymdrechu i fod yn:

- Gymesur: dylai rheoleiddwyr ond ymyrryd pan fo'n angenrheidiol: dylai camau unioni fod yn briodol i'r risg a grëir, a dylid nodi costau a'u cadw mor isel â phosib;
- Atebol: mae'n rhaid i reoleiddwyr allu cyfiawnhau penderfyniadau, a bod yn destun craffu gan y cyhoedd;
- Cyson: mae'n rhaid bod rheolau a safonau'n gydgysylltiedig a rhaid eu rhoi ar waith yn deg;
- Tryloyw: dylai rheoleiddwyr fod yn agored, a chadw rheoliadau'n syml ac yn hawdd eu deall; a
- Thargedig: dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau'r sgil effeithiau.

9.3 Yn unol â'r Canllawiau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ymdrechu i

DINAS A SIR ABERTAWE

osgoi dyblygu gyda chyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd.

- 9.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n defnyddio gorfodaeth briodol i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. Prif rôl gorfodi a chydymffurfiaeth yr Awdurdod Trwyddedu o dan y Ddeddf fydd sicrhau y cydymffurfir â'r trwyddedau mangre a chaniatadau perthnasol eraill.
- 9.5 Y Comisiwn Gamblo yw'r corff gorfodi ar gyfer ar y trwyddedau gweithredu a'r trwyddedau personol. Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ymdrin ag unrhyw bryderon ynglŷn â chynhyrchu, cyflenwi nac atgyweirio peiriannau hapchwarae ond hysbysir y Comisiwn Gamblo amdanynt.
- 9.6 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cynnal rhaglen archwilio'n seiliedig ar risg, gan roi ystyriaeth i'r canlynol:
- Yr amcanion trwyddedu;
 - Codau ymarfer perthnasol;
 - Y Canllawiau;
 - Yr egwyddorion a amlinellir yn y Datganiad hwn o Bolisi Trwyddedu;
 - Polisi gorfodi'r Awdurdod Trwyddedu.
- 9.7 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried y Canllawiau mewn perthynas â 'phryniannau prawf' wrth ystyried gwneud pryniannau prawf mewn mangreoedd gamblo.
- 9.8 Gellir ond gwneud peiriannau hapchwarae ar gael i'w defnyddio lle mae trwydded mangre, hawlen neu esemptiad, e.e. ffeiriau teithio, yn awdurdodi eu defnyddio. Nid yw'n bosibl gosod peiriannau hapchwarae mewn mangreoedd fel siopau diodydd trwyddedig, siopau papurau newydd, swyddfeydd tacsî, siopau cludfwyd neu siopau manwerthu eraill.
- 9.9 Pan ganfyddir peiriannau hapchwarae sydd wedi'u gosod yn anghyfreithlon, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gwneud pob ymdrech i ymafael yn y peiriant hapchwarae ar y cyfle cyntaf posibl er mwyn sicrhau nad yw'r peiriant hapchwarae yn cael ei ddefnyddio mwyach.
- 9.10 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, gan weithio gyda'r Comisiwn Gamblo, yn ymchwilio i droseddau a gyflawnwyd o dan Ddeddf Gamblo 2005 gan gyflenwr y peiriant a pherchennog y busnes y lleolwyd y peiriant yn anghyfreithiol ynddo.

DINAS A SIR ABERTAWE

- 9.11 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn cymryd camau ffurfiol yn erbyn perchennog y busnes lle mae peiriannau hapchwarae anghyfreithlon wedi bod ar gael i'w defnyddio yn y fangre. Fel rhan o'r gweithrediadau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio sicrhau gorchymyn fforffedu o dan Adran 345 y Ddeddf er mwyn gallu dinistrio'r peiriant wedyn.
- 9.12 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n rhagweld y caiff camau tebyg eu cymryd gan y Comisiwn Gamblo i sicrhau bod camau gweithredu ffurfiol yn cael eu cymryd yn erbyn cyflenwr y peiriant hapchwarae hefyd.
- 10.0 Hawliau Sylfaenol
- 10.1 O dan delerau'r Ddeddf, gall unrhyw unigolyn neu gwmni wneud cais am amrywiaeth o ganiatadau a chael eu ceisiadau wedi'u hystyried ar eu rhinweddau unigol. Yn yr un modd, mae gan unrhyw Barti â Buddiant neu Awdurdod Cyrifol yr hawl i gyflwyno sylwadau perthnasol ar gais, neu i ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif lle darparwyd iddynt wneud hynny yn y Ddeddf.
- 10.2 Mae gan ymgeiswyr, a'r rheiny sy'n cyflwyno sylwadau perthnasol mewn perthynas â cheisiadau i'r Awdurdod Trwyddedu hawl i apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor.
- 11.0 Integreiddio Strategaethau
- 11.1 Drwy ymgynghori'n eang cyn i'r Datganiad Polisi hwn gael ei gyhoeddi, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi ystyriaeth lawn i bolisiâu lleol ar atal troseddu, diwylliant, trafnidiaeth, cynllunio a thwristiaeth fel rhan o strategaeth integredig ar gyfer y Cyngor, yr heddlu ac asiantaethau eraill. Efallai na fydd llawer o'r strategaethau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu, ond gallant effeithio'n anuniongyrchol arnynt.
- 12.0 TRWYDDEDAU MANGREOEDD
- 12.1 Egwyddorion Cyffredinol
- 12.2 Mae trwyddedau mangre yn amodol ar y gofynion a bennir yn y Ddeddf a'r rheoliadau, gan gynnwys yr amodau gorfodol a sylfaenol y manylir arnynt mewn rheoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae Awdurdodau Trwyddedu'n gallu eithrio amodau sylfaenol a gallant atodi rhai eraill hefyd, lle credir bod hyn yn briodol i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â mangre benodol.

DINAS A SIR ABERTAWE

- 12.3 Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â thrwyddedau mangre, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol y dylai amcanu at ganiatáu defnyddio mangre at ddiben gamblo i'r graddau y mae'n meddwl bod hynny:
- yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;
 - yn unol ag unrhyw arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;
 - yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu; ac
 - yn unol â Pholisi Gamblo'r Awdurdod.
- 12.4 Yn unol â'r Canllawiau, nid ystyrir bod gwrthwynebiadau moesol i gamblo yn rheswm dilys i wrthod ceisiadau am drwyddedau mangre, ac nid yw galw yn faen prawf ar gyfer Awdurdod Trwyddedu.
- 12.5 Mae'r Comisiwn Gamblo wedi cyhoeddi Amodau Trwydded a Chodau Ymarfer (LCCP) hefyd sy'n gymwys i'r holl weithredwyr a deiliaid trwyddedau personol. Mae'r LCCP yn cryfhau gofynion y cod Cyfrifoldeb Cymdeithasol ac yn pennu gofyniad ffurfiol i weithredwyr ystyried risgiau lleol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i'r LCCP wrth ystyried ceisiadau. Gellir gweld manylion yr LCCP a'r cod Cyfrifoldeb Gymdeithasol ar wefan y Comisiwn Gamblo yn www.gamblingcommission.gov.uk
- Mae'r cod yn pennu gofyniad ar weithredwyr:
- I oruchwylio cwsmeriaid yn effeithiol ar fangreoedd gamblo ac adnabod cwsmeriaid sydd dan risg niwed yn gysylltiedig â gamblo.
 - I gael cynlluniau ar waith i alluogi cwsmeriaid i eithrio'u hunan o'r holl weithredwyr o fath tebyg yn yr ardal lle maent yn byw ac yn gweithio.
 - I fod ag ystod o fesurau yn ymwneud â marchnata i sicrhau cyfrifoldeb cymdeithasol sy'n dryloyw ac nad ydynt yn gamarweiniol.
 - I gynhyrchu asesiad risg ar fangreoedd unigol, a chael polisiau a gweithdrefnau a mesurau rheoli ar waith i liniaru risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu.
- 12.6 Lle mae trwydded mangre yn caniatáu peiriannau hapchwarae, bydd hyn yn cael ei reoli gan nifer y peiriannau a'r categori a bennwyd gan y Ddeddf, ac unrhyw newidiadau dilynol i ddeddfwriaeth. Gellir gweld y wybodaeth gyfredol ar wefan y Comisiwn Gamblo yn <http://www.gamblingcommission.gov.uk/for-gambling-businesses/Compliance/Sector-specific-compliance/Arcades-and->

DINAS A SIR ABERTAWE

13.0 Diffiniad o Fangre

13.1 Mae'r Ddeddf yn diffinio mangre fel "unrhyw le". Mae Adran 152, felly, yn atal mwy nag un drwydded mangre rhag bod yn gymwys i "unrhyw le". Gellid rhoi mwy nag un drwydded mangre i un adeilad, ar yr amod eu bod ar gyfer gwahanol rannau o'r adeilad a gellir ystyried yn rhesymol fod gwahanol rannau o'r adeilad yn fangreoedd gwahanol. Mabwysiadwyd yr ymagwedd hon i alluogi mangre unedau lluosog mawr fel parc pleser, pier, trac neu ganolfan siopa i gael trwyddedau mangreoedd ar wahân lle mae mesurau diogelu priodol ar waith. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw arbennig os oes pryderon am israniadau adeilad neu blot sengl, a bydd yn sicrhau y cydymffurfir ag amodau gorfodol ynghylch mynediad.

13.2 Bydd p'un a ellir ystyried gwahanol rannau o adeilad yn fangre ar wahân yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn Gamblo o'r farn y gellir ystyried ardaloedd o adeilad sydd wedi'u gwahanu'n artiffisial neu dros dro fel mangre wahanol.

13.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw penodol i'r Canllawiau a bydd yn cymryd gofal arbennig wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau lluosog ar gyfer adeilad a cheisiadau'n ymwneud â rhan ar wahân o adeilad a ddefnyddir at ddibenion eraill (heb fod yn ymwneud â gamblo). Yn benodol, bydd yr Awdurdod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Dylai mynedfeydd ac allanfeydd o rannau o adeilad a gwmpesir gan un drwydded neu fwy fod ar wahân ac yn hawdd eu nodi fel na fydd dim i amharu ar gadw'r mangreoedd gwahanol ar wahân ac ni fydd pobl yn gallu 'crwydro' i fan gamblo heb yn wybod. Yn y cyd-destun hwn, dylai fod modd cael mynediad i'r fangre fel arfer heb fynd drwy fangre drwyddedig arall na thrwy fangre â hawlen;
- Dylai cwsmeriaid allu cymryd rhan yn y gweithgaredd a enwir ar drwydded y fangre;
- Nod y trydydd amcan trwyddedu yw amddiffyn plant rhag cael eu niweidio gan Gamblo. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu nid yn unig eu hatal rhag cymryd rhan mewn gamblo, ond eu hatal rhag bod yn agos at weithgareddau gamblo hefyd. Dylai mangreoedd gael eu trefnu fel nad yw plant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gamblo, nad ydynt yn cael mynediad damweiniol iddo na'r cyfle i weld gamblo yn agos lle cânt eu gwahardd rhag cymryd rhan.

13.4.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried materion eraill hefyd, gan

DINAS A SIR ABERTAWE

gynnwys:

- P'un a yw'r fangre wedi'i chofrestru ar wahân ar gyfer ardrethi busnes;
- P'un ai person gwahanol sy'n berchen ar y fangre gyfagos;
- P'un a ellir cael mynediad i bob un o'r mangreoedd o'r stryd neu o dramwyfa gyhoeddus'
- P'un ai dim ond trwy fangre gamblo arall y gellir cael mynediad i'r fangre?

14.0 Mangreoedd Parod ar gyfer Gamblo

14.1 Mae'r Canllawiau yn dweud y dylai trwydded i ddefnyddio mangre ar gyfer gamblo ond gael ei rhoi mewn perthynas â mangre y gall yr Awdurdod Trwyddedu fod yn fodlon y bydd yn barod i gael ei defnyddio ar gyfer gamblo yn y dyfodol rhesymol o agos, yn gyson â graddfa adeilad neu newidiadau sy'n ofynnol cyn y gellir dechrau defnyddio'r fangre. Os nad yw gwaith adeiladu'r fangre wedi'i gwblhau eto neu os oes angen gwaith addasu, neu os nad oes hawl gan yr ymgeisydd i feddiannu'r fangre eto, dylid ystyried cais am ddatganiad dros dro.

14.2 Wrth benderfynu a ellir rhoi trwydded mangre lle mae gwaith adeiladu neu addasu'n parhau mewn mangre, bydd yr Awdurdod yn penderfynu ar geisiadau ar sail eu rhinweddau, gan ddilyn proses ystyried dau gam: -

- Yn gyntaf, p'un a ddylid caniatáu i'r fangre gael ei defnyddio at ddiben gamblo;
- Yn ail, p'un a ellir pennu amodau priodol i ddarparu ar gyfer y sefyllfa lle nad yw'r fangre eto yn y cyflwr y dylai fod ynddo cyn bod gweithgareddau gamblo'n cael eu cynnal.

14.3 Dylai ymgeiswyr nodi nad oes rhwymedigaeth ar yr Awdurdod Trwyddedu i roi trwydded a bod ganddo hawl hefyd i benderfynu ei bod yn briodol rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amodau.

15.0 Lleoliad

15.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol na ellir ystyried materion galw o ran lleoliad mangre. Yn unol â'r Canllawiau, bydd yr Awdurdod hwn yn rhoi sylw arbennig i'r amcan trwyddedu'n ymwneud ag amddiffyn plant a phersonau agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo, yn ogystal â materion trosedd ac anrhefn. Wrth ystyried yr Amcanion Trwyddedu o ran y lleoliad, gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried y ffeithiau canlynol:

DINAS A SIR ABERTAWE

- Maint a natur y fangre;
 - Math o gyfleusterau y gwneir cais amdanynt;
 - Natur yr ardal lle mae mangre i'w lleoli;
 - Effaith bosibl mangre ar ardal;
 - Unrhyw ffactor rhesymol arall.
- 15.2 Pe penderfynir ar unrhyw bolisi penodol o ran ardaloedd lle na ddylid lleoli mangreoedd gamblo, caiff y datganiad hwn ei ddiweddarau. Dylid nodi nad yw unrhyw bolisi o'r fath yn atal unrhyw gais rhag cael ei gyflwyno a phenderfynir ar bob cais ar ei rinweddau, a'r ymgeisydd fydd yn gyfrifol am ddangos sut gellir goresgyn pryderon posibl.
- 16.0 Goruchwylwyr Drws
- 16.1 Mae'r Canllawiau yn dweud y gall awdurdodau trwyddedu ystyried p'un a oes angen am oruchwylwyr drws mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu amddiffyn plant a phersonau agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo, ac atal mangre rhag dod yn ffynhonnell trosedd. Lle mae gweithredwyr ac awdurdodau trwyddedu'n penderfynu bod goruchwyliaeth wrth fynedfeydd/peiriannau yn briodol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n penderfynu p'un a oes angen i'r goruchwylwyr hyn fod wedi'u trwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- 17.0 Dyblygu Cyfundrefnau Rheoleiddio Eraill
- 17.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried yr holl faterion perthnasol ac yn ceisio osgoi unrhyw ddyblygu gyda systemau statudol / rheoleiddio eraill lle bo modd, gan gynnwys cynllunio. Ni fydd yr awdurdod yn ystyried a yw cais am drwydded yn debygol o gael cymeradwyaeth caniatâd cynllunio neu reoliadau adeiladu. Fodd bynnag, bydd yn ystyried yn ofalus unrhyw bryderon ynghylch amodau nad yw trwyddedeion yn debygol o allu eu bodloni oherwydd cyfyngiadau cynllunio pe bai sefyllfa o'r fath yn codi.
- 17.2 Wrth ymdrin â chais am drwydded mangre ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni fydd yr Awdurdod yn ystyried bod yr adeiladau hynny'n gorfod cydymffurfio â'r caniatadau cynllunio neu adeiladu angenrheidiol. Ni chaiff risgiau tân neu iechyd a diogelwch eu hystyried gan yr ymdrinnir â'r materion hyn o dan ddeddfwriaeth berthnasol arall.
- 18.0 Casinos
- 18.1 Ar 4 Tachwedd 2014, gan weithredu fel Awdurdod Trwyddedu, cytunodd Dinas a Sir Abertawe gyntaf i basio penderfyniad i beidio â

DINAS A SIR ABERTAWE

rhoi trwyddedau casinos o dan Adran 166 y Ddeddf. Daeth y penderfyniad hwn i rym ar 5 Rhagfyr 2014, a phasiwyd y penderfyniad eto ym mis Hydref 2017 a Thachwedd 2020. Pennir y dyddiad y daw'r penderfyniad diweddaraf i rym fel 6 Rhagfyr 2020. Roedd y penderfyniadau'n dilyn proses ymgynghori ac ystyriaeth o'r ymatebion a dderbyniwyd.

- 18.2 Dylai ymgeisydd posibl am drwydded mangre casino wybod bod y penderfyniad hwn wedi'i dderbyn ac na fydd ceisiadau am drwydded mangre casino yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod hwn. Bydd unrhyw gais a dderbynnir yn cael ei ddychwelyd a hysbysir yr ymgeisydd fod penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau casinos wedi'i wneud ar gyfer Dinas a Sir Abertawe.
- 18.3 Ni fydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar drwyddedau mangre casino presennol, gan gynnwys unrhyw geisiadau am amrywiadau neu drosglwyddiadau i'r trwyddedau hyn.
- 18.4 Bydd y penderfyniad yn para am gyfnod o 3 blynedd o'r dyddiad y daw i rym. Ar ôl y cyfnod hwn, gall yr Awdurdod dderbyn penderfyniad newydd i beidio â rhoi trwyddedau mangre casino.
- 18.5 Yn 2006, cyflwynodd Dinas a Sir Abertawe gynnig i'r Panel Cynghori Casinos Annibynnol i drwyddedu un casino Mawr ac un casino Bach. Ar 19 Mai 2008, cafodd Rheoliadau Categoriâu Casinos 2008 a Gorchymyn Gamblo (Dosbarthiad Daearyddol Trwyddedau Mangreoedd Casino Bach a Mawr) 2008 eu gwneud. Mae'r Gorchymyn olaf yn pennu pa Awdurdodau Trwyddedu all roi Trwyddedau Mangreoedd Casino Bach a Mawr. Roedd Dinas a Sir Abertawe yn un o'r wyth awdurdod a awdurdodwyd i roi Trwydded Mangreoedd Casino Bach.
- 18.6 Ar 26 Chwefror 2008, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y Cod Ymarfer ar Benderfyniadau o dan Baragraffau 4 a 5 Atodlen 9 i'r Ddeddf, yn ymwneud â Chasinos Mawr a Bach, sy'n amlinellu: -
 - y weithdrefn i'w dilyn wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n ofynnol o dan Baragraffau 4 a 5 Atodlen 9 i'r Ddeddf; a
 - materion y dylai'r Awdurdod Trwyddedu roi ystyriaeth iddynt wrth wneud y penderfyniadau hynny.
- 18.7 Caniateir i'r Awdurdod Trwyddedu roi Trwydded Mangre ar gyfer Casino Bach. Er mwyn rhoi trwydded mangre casino mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu gyhoeddi gwahoddiad am i geisiadau gael eu gwneud ar gyfer Trwydded Casino Bach o dan Atodlen 9 i Ddeddf

DINAS A SIR ABERTAWE

Gamblo 2005 a bydd yn penderfynu'r ceisiadau a dderbynnir yn unol â Rheoliadau Gamblo (Gwahodd Ceisiadau Cystadleuol am Drwyddedau Mangreoedd Casino Bach a Mawr) 2008, Cod Ymarfer yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu.

- 18.8 Mae dau gam posibl i'r broses benderfynu. Wrth wneud penderfyniad a fynir gan Baragraff 4 yr Atodlen, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu gymhwyso'r weithdrefn ar gyfer asesu ceisiadau am drwyddedau mangreoedd y mae'n ei chymhwyso fel arfer i'r cyfryw geisiadau (Cais Casino Cam 1). Lle mae'r Awdurdod Trwyddedu'n penderfynu y byddai, pe bai'n gallu, yn caniatáu mwy nag un o'r ceisiadau Cam 1, byddai'r ymgeiswyr a wnaeth y ceisiadau hynny'n cael eu gwahodd i gyfranogi mewn Cais Casino Cam 2.

Sylwer: nid yw paragraffau 18.7 a 18.8 yn berthnasol tra bod y penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau casino mewn grym

- 18.9 Gan fod Dinas a Sir Abertawe wedi'i awdurdodi i roi trwydded mangre casino bach, mae'n ofynnol iddo bennu'r egwyddorion y byddai'n eu cymhwyso wrth benderfynu ar y cyfryw gais, er ei fod wedi derbyn penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau casinos.

19.0 Egwyddorion Cyffredinol – Mangreoedd Casino

- 19.1 Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn y Ddeddf, gall unrhyw berson wneud cais. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn penderfynu ar bob cais yn ôl meini prawf sydd: -

- yr un peth ar gyfer pob ymgeisydd;
- wedi'u hysbysu i bob ymgeisydd;
- heb eu rhagddewis i ffafrio ymgeisydd neu gais penodol.

- 19.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n sicrhau nad yw unrhyw gontract, trefniadau sydd eisoes yn bodoli neu berthynas arall gyda chwmni neu unigolyn yn effeithio ar y weithdrefn ar gyfer asesu ceisiadau er mwyn ei gwneud yn annheg neu yr hyn a welir ei fod yn annheg i unrhyw ymgeisydd. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, felly, yn diystyru unrhyw gontract, trefniant neu berthynas arall.
relationship.

- 19.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod y gall ymgeiswyr naill ai wneud cais am Drwydded Mangre Casino lawn neu fel arall Datganiad Dros Dro. Mae'n rhaid i ymgeiswyr am Drwyddedau Mangre Llawn, fodd bynnag, fodloni rhai meini prawf, sef bod rhaid iddynt:

DINAS A SIR ABERTAWE

- ddal Trwydded Weithredu neu fod wedi gwneud cais am; a
 - bod â'r hawl i feddiannu'r fangre dan sylw.
- 19.4 Oni phennwyd fel arall, bydd unrhyw gyfeiriad at y cais a'r gweithdrefnau ar gyfer 'trwydded mangre' i gasino yn y rhannau canlynol o'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys y cais a'r gweithdrefnau ar gyfer 'datganiad dros dro' i gasino hefyd.
- 19.5 Wrth wneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â chais, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried p'un a yw cynnig gan yr ymgeisydd yn debygol neu beidio o gael ei ganiatáu yn unol â'r gyfraith yn ymwneud â rheoliadau cynllunio neu adeiladu, ac ni fydd unrhyw benderfyniad yn atal unrhyw benderfyniad diweddarach gan yr Awdurdod o dan y gyfraith yn ymwneud â chynllunio neu adeiladu.
- 19.6 Bydd y Pwyllgor Trwyddedu'n gwneud y penderfyniad ar geisiadau trwydded casino yng Ngham 1 a Cham 2. Yn ystod Cam 2, bydd y Pwyllgor Trwyddedu'n cael cefnogaeth gan Banel Cyngori o Swyddogion a rhai eraill sy'n meddu ar brofiad priodol.
- 19.7 Yn unol â'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn sicrhau bod Cofrestr Buddiannau yn ei lle yn datgelu buddiant mewn unrhyw gontract, trefniant neu berthynas arall gydag ymgeisydd neu berson sy'n gysylltiedig neu'n gysylltiol ag ymgeisydd. Dylai ymgeiswyr nodi nad yw hyn yn berthnasol i unrhyw gytundeb rhwng yr Awdurdod Trwyddedu a'r ymgeisydd yr ymrwymwyd iddo yn ystod cam 2 y broses gwneud cais.
- 20.0 Cais Casino Cam 1
- 20.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n darparu Pecyn Cais a fydd yn cynnwys datganiad o'r egwyddorion y mae'n bwriadu eu cymhwyso a'r weithdrefn y mae'n bwriadu ei dilyn wrth asesu ceisiadau am y Drwydded Mangre Casino Bach.
- 20.2 Yn y cam hwn, ni all yr Awdurdod Trwyddedu dderbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol ac eithrio'r ffurflen gais ragnodedig a bennwyd yn Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Trwyddedau Mangreoedd a Datganiadau Dros Dro) (Cymru a Lloegr) 2007. Bydd yr holl gyfryw wybodaeth ychwanegol yn cael ei diystyru a'i dychwelyd i'r ymgeisydd.
- 20.3 O ran Cam 1, bydd yr egwyddorion fel y'u datganwyd ym Mharagraffau 12-18 y Polisi Gamblo yn berthnasol i bob cais.
- 20.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod yr ystyrir bob un o'r ymgeiswyr eraill yn 'barti â buddiant' ac o ganlyniad gallant wneud

DINAS A SIR ABERTAWE

sylwadau. Cydnabyddir y gellir apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Trwyddedu yng Ngham 1, ac os felly ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n mynd ymlaen ymhellach hyd nes yr ymdriniwyd â'r holl apelau.

20.5 Os yw'r broses hon yn arwain at fwy nag un penderfyniad dros dro i roi Trwydded Mangre, bydd Cam 2 y Cais Casino yn cael ei roi ar waith.

21.0 Egwyddorion i'w cymhwysu i Gam 2 y cais casino

21.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymhwysu'r egwyddorion canlynol i Gam 2 wrth benderfynu p'un ai i roi Trwydded Mangre Casino neu beidio: -

- Unrhyw ddarpariaeth a wneir ar gyfer amddiffyn plant a phobl eraill agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio drwy gamblo, boed yn y casino arfaethedig neu yn y gymuned ehangach;
- Unrhyw ddarpariaeth a wneir ar gyfer atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi troseddu;
- Unrhyw ddarpariaeth a wneir ar gyfer sicrhau bod gamblo'n digwydd mewn modd teg ac agored;
- Effeithiau tebygol cais ar gyflogaeth ac adfywio yn Abertawe;
- Dyluniad a lleoliad y datblygiad arfaethedig;
- Ystod a natur cyfleusterau nad ydynt yn rhai gamblo i'w cynnig fel rhan o'r datblygiad arfaethedig.
- Unrhyw gyfraniadau ariannol a chyfraniadau eraill;
- Ymarferoldeb cyflawni'r cynigion a gynhwysir yn y ceisiadau

21.2 Wrth benderfynu pa gais sy'n debygol o arwain at y budd pennaf i Abertawe, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi amlinellu materion sy'n debygol o gael y pwys mwyaf (Atodiad C). Fodd bynnag, ni chaiff ymgeisydd ei atal rhag rhoi buddion eraill gerbron y bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n eu hystyried a'u pwysu a'u mesur i'r graddau yr ystyria eu bod yn berthnasol.

21.3 Er bod ymgeiswyr yn gallu cyflwyno cais ar gyfer unrhyw leoliad yn Abertawe a fydd yn cael ei farnu ar ei rinweddau unigol ei hun, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n coleddu'r farn dros dro mai'r lleoliad ar gyfer y Casino Bach sy'n debygol o ddod â'r budd pennaf i Abertawe yw Canol Dinas Abertawe.

22.0 Cais Casino Cam 2

DINAS A SIR ABERTAWE

- 22.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cytuno a gweithredu protocol sy'n rheoli storio gwybodaeth gyfrinachol a gyflwynir yn ystod Cam 2 y broses ymgeisio er mwyn cynnal cyfrinachedd.
- 22.2 Yn y Cam hwn, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgan y buddion y byddai eu ceisiadau yn eu cyfrannu, os cânt eu caniatáu, i Abertawe.
- 22.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu ei hun yn gwerthuso'r holl geisiadau ac yn gwneud y penderfyniad i roi'r Trwydded Mangre Casino bach sydd ar gael i'r ymgeisydd a fydd, yn ei farn ef, yn arwain at y budd pennaf i Abertawe.
- 22.4 Gall yr Awdurdod Trwyddedu wneud cytundeb ysgrifenedig gydag ymgeisydd a gall benderfynu atodi amodau at unrhyw drwydded sy'n cael ei rhoi er mwyn rhoi grym i unrhyw gytundeb a wneir. Gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried effaith unrhyw gytundeb yr ymrwymwyd iddo felly wrth wneud y penderfyniad ar y ceisiadau.
- 22.5 Bydd y Panel Cynghori, a benodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu, yn cynnal asesiad rhagarweiniol o bob cais Cam 2. Yn dilyn yr asesiad rhagarweiniol, gall y Panel Cynghori gyfranogi mewn trafodaethau neu negodiadau gyda phob ymgeisydd Cam 2 gyda'r bwriad y bydd manylion cais yn cael eu mireinio, eu hategu neu'u newid fel arall er mwyn hyrwyddo'r buddion i ardal yr Awdurdod a fyddai'n deillio ohono, pe bai'n cael ei ganiatáu.
- 22.6 Bydd y Panel Cynghori'n asesu pob cais yn ôl meini prawf a bennir yn y Pecyn Cais. Anfonir asesiad y Panel Cynghori o'i gais i'r ymgeisydd er mwyn galluogi'r ymgeisydd i gywiro unrhyw gamgymeriadau ffeithiol neu (heb ddarparu gwybodaeth newydd) wneud sylwadau ynglŷn â'r asesiad.
- 22.7 Yna bydd y Panel Cynghori'n darparu adroddiad ysgrifenedig terfynol i'r Pwyllgor Trwyddedu a fydd yn cynnwys ei argymhelliad ynglŷn â'r band cywir ar gyfer pob maen prawf, ei asesiad ansoddol a hefyd ymateb yr ymgeisydd. Bydd y Pwyllgor Trwyddedu'n ystyried adroddiad y Panel Cynghori a bydd yn penderfynu'r union sgôr ar gyfer pob maen prawf. Ni fydd y Pwyllgor Trwyddedu yn cymryd unrhyw dystiolaeth bellach na sylwadau a wnaed gan yr ymgeiswyr, ond bydd yn gwneud ei benderfyniad wedyn. Bydd unrhyw gyngor cyfreithiol fydd ei angen yn cael ei roi gan y Cyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn derbyn neu'n gwrthod unrhyw gyngor a roddir fel yr ystyria'n briodol.
- 22.8 Bydd yr holl ymgeiswyr Cam 2 yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r penderfyniad a'r rhesymau dros gymeradwyo neu wrthod cyn gynted

DINAS A SIR ABERTAWE

ag y bo'n rhesymol ymarferol. Nodir, pan fydd penderfyniad wedi'i wneud, ni fydd unrhyw hawl apelio.

23.0 Mangreoedd Bingo

23.1 Caniateir i blant a phobl ifanc fynd i mewn i fangre bingo sydd wedi'i thrwyddedu ar gyfer bingo, fodd bynnag, ni chaniateir iddynt gymryd rhan yn y bingo ac os oes peiriannau categori B neu C ar gael i'w defnyddio, yna mae'n rhaid gwahanu'r rhain o ardaloedd lle caniateir plant a phobl ifanc. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n sicrhau::

- bod yr holl beiriannau o'r fath wedi'u lleoli mewn ardal o'r fangre sydd wedi'i gwahanu oddi wrth weddill y fangre gan rwystr ffisegol sy'n effeithiol i atal mynediad heblaw am drwy fynedfa ddynodedig;
- mai dim ond oedolion a ganiateir yn yr ardal lle mae'r peiriannau wedi'u lleoli;
- mae mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau wedi'u lleoli yn cael ei goruchwyllo;
- bod yr ardal lle mae'r peiriannau wedi'u lleoli wedi'i threfnu fel bod staff y gweithredwr neu ddeiliad y drwydded yn gallu ei goruchwyllo; ac
- wrth y fynedfa i, a thu mewn i, unrhyw gyfryw ardal ceir hysbysiadau wedi'u harddangos yn amlwg yn dynodi bod mynediad i'r ardal wedi'i gwahardd i bersonau o dan 18 oed.

24.0 Mangreoedd Betio

24.1 Mae'r Ddeddf yn cynnwys un dosbarth trwydded ar gyfer mangreoedd betio. Fodd bynnag, o fewn y dosbarth trwydded unigol hwn, bydd mathau gwahanol i fangreoedd sy'n mynnu eu trwyddedu.

24.2 Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu cyfryngwyr betio i weithredu o fangre, er bod cyfryngwyr betio fel arfer yn cynnig eu gwasanaethau trwy gyfathrebu o bell, fel y rhyngwyd. Mewn egwyddor, fodd bynnag, nid oes dim i atal cyfryngwr betio rhag ymgeisio am drwydded mangre betio i gynnig gwasanaethau cyfryngol yn y fangre.

24.3 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'i bŵer i gyfyngu ar nifer peiriannau betio, eu natur ac amgylchiadau eu gwneud ar gael drwy atodi amod trwydded at drwydded mangre betio.

24.4 Wrth ystyried p'un ai i bennu amod o'r fath, bydd yr Awdurdod Trwyddedu, ymhlith pethau eraill, yn ystyried maint y fangre, nifer y safleoedd cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion person i berson a

DINAS A SIR ABERTAWE

gallu staff i fonitro defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifanc neu gan bobl agored i niwed.

- 24.5 Mae'r Ddeddf yn amodi nad yw peiriant yn beiriant hapchwarae os cafodd ei gynllunio neu ei addasu i'w ddefnyddio i fetio ar ddigwyddiadau real yn y dyfodol. Gall mangre betio ddarparu peiriannau sy'n derbyn betiau ar ddigwyddiadau byw, megis rasio ceffylau, yn lle gosod bet dros y cownter. Nid yw'r "peiriannau betio" hyn yn beiriannau hapchwarae: y cyfan a wnânt yw awtomeiddio'r broses y gellir ei chynnal yn bersonol ac, felly, nid yw'n ofynnol eu rheoleiddio fel peiriant hapchwarae.
- 24.6 Gall deiliad trwydded mangre betio wneud hyd at bedwar peiriant hapchwarae Categori B, C neu D ar gael i'w defnyddio. Mae peiriannau Categori B mewn mangre betio wedi'u cyfyngu i is-gategori B2, B3 a B4.
- 25.0 Traciau
- 25.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn gwybod y gall traciau fod yn destun un neu fwy o drwyddedau mangre, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud ag adran benodol o'r trac.
- 25.2 Yn unol â'r Canllawiau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio gan gamblo) a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd pob math o fangre yn neilltuol ac y caiff plant eu gwahardd o ardaloedd gamblo lle na chaniateir iddynt fynd i mewn.
- 25.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i'r ymgeisydd ddangos mesurau addas i sicrhau nad yw plant yn cael mynediad i gyfleusterau hapchwarae i oedolion yn unig. Nodir y caniateir i blant a phobl ifanc fynd i mewn i ardaloedd trac lle darperir cyfleusterau betio ar ddiwrnodau pan gynhelir rasys cŵn a/neu rasys ceffylau, ond eu bod yn dal i gael eu hatal rhag mynd i ardaloedd lle darperir peiriannau hapchwarae (ac eithrio peiriannau categori D).
- 25.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn nodi bod y Canllawiau'n pennu gofyniad ar Awdurdodau Trwyddedu i ystyried lleoliad peiriannau hapchwarae mewn traciau. Bydd angen i geisiadau am drwyddedau mangre traciau ddangos, lle bo gan yr ymgeisydd drwydded gweithredu betio pŵl ac mae'n bwriadu defnyddio ei hawl i bedwar peiriant hapchwarae, dylai'r peiriannau hyn gael eu gosod mewn ardaloedd y gwaherddir plant ohonynt. Nid yw plant a phobl ifanc

DINAS A SIR ABERTAWE

wedi'u gwahardd rhag chwarae peiriannau hapchwarae categori D ar drac.

- 25.5 Peiriannau Betio - Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn rhoi ystyriaeth i faint y fangre, nifer y safleoedd cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion person i berson a gallu staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau'r peiriannau betio y mae gweithredwr eisiau eu cynnig.
- 25.6 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn nodi'r Canllawiau hefyd sy'n awgrymu bod Awdurdodau Trwyddedu'n ystyried cyfyngu ar nifer a lleoliad peiriannau o'r fath mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau mangre oedd betio trac.
- 25.7 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried atodi amod at drwyddedau mangre trac sy'n mynnu bod gweithredwr y trac yn sicrhau bod y rheolau betio wedi'u harddangos yn amlwg mewn ardaloedd betio neu gerllaw, neu y cymerir mesurau eraill i sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd. Gallai un enghraifft gynnwys argraffu'r rheolau ar y cerdyn rasio neu eu gwneud ar gael mewn ar ffurf taflen o'r swyddfa trac.
- 25.8 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod ymgeiswyr yn cyflwyno cynlluniau o'r fangre gyda'u cais er mwyn sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol gan yr Awdurdod Trwyddedu i benderfynu p'un a yw'r fangre'n addas ar gyfer gamblo.
- 25.9 Nid oes angen i gynlluniau ar gyfer traciau fod yn seiliedig ar raddfa benodol ond dylid eu llunio ar raddfa a dylent fod yn ddigon manwl i gynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau.
- 26.0 Canolfan Hapchwarae Oedolion
- 26.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi ystyriaeth benodol i'r angen i amddiffyn plant a phobl agored rhag niwed o gamblo neu gael eu hecsbloetio gan gamblo.
- 26.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr fodloni'r awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau na chaiff unrhyw un dan 18 oed fynediad i ganolfan hapchwarae oedolion. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi ystyriaeth benodol i leoliad canolfannau hapchwarae oedolion a mynediad iddynt, er mwyn lleihau'r cyfleoedd i blant gael mynediad iddynt.
- 26.3 Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn mangre fel gweithgaredd atodol i brif ddiben y fangre; e.e. ardaloedd gwasanaethau traffyrdd a

DINAS A SIR ABERTAWE

chanolfannau siopa, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r ardal gamblo gael ei diffinio'n glir i sicrhau bod cwsmeriaid yn llwyr ymwybodol eu bod yn gwneud dewis i fynd i mewn i fangre gamblo a bod y fangre yn cael ei goruchwyllo'n ddigonol bob amser.

- 26.4 Gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried mesurau i fodloni'r amcanion trwyddedu, megis:
- Cynlluniau prawf oedran;
 - Teledu cylch cyfyng;
 - Goruchwyllo mynedfeydd/ardaloedd peiriannau;
 - Gwahanu ardaloedd yn ffisegol;
 - Lleoliad mynedfa;
 - Hysbysiadau/arwyddion;
 - Oriau agor penodol;
 - Cynlluniau hunaneithrio;
 - Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn gynhwysfawr, ac arwydd o fesurau enghreifftiol yn unig ydyw.

27.0 Canolfannau Adloniant Teulu Trwyddedig (FEC)

27.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw priodol i'r angen am amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio drwy gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau na chaiff y rhai dan 18 oed fynediad i'r mannau i oedolion yn unig.

27.2 Caniateir i blant a phobl ifanc gael mynediad i ganolfan adloniant teulu trwyddedig a gallant chwarae ar beiriannau categori D. Ni chaniateir iddynt chwarae ar beiriannau categori C a bydd yn ofyniad bod gwahaniad clir rhwng y ddau fath o beiriant fel nad yw plant yn cael mynediad i beiriannau categori C.

27.3 Gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried mesurau i fodloni'r amcanion trwyddedu, megis:

- Cynlluniau prawf oedran;
- Teledu cylch cyfyng;
- Goruchwyllo mynedfeydd/ardaloedd peiriannau;
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol;
- Lleoliad mynedfa;
- Hysbysiadau/arwyddion;
- Oriau agor penodol;

DINAS A SIR ABERTAWE

- Cynlluniau hunaneithrio;
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare;
- Mesurau/hyfforddiant i staff ar sut i ddelio â phlant yn y fangre, er enghraifft lle amheuir triwantiaeth o'r ysgol.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn gynhwysfawr, ac arwydd o fesurau enghreifftiol yn unig ydyw.

- 27.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, yn unol â'r Canllawiau, yn cyfeirio at wefan y Comisiwn Gamblo mewn perthynas ag unrhyw amodau sy'n berthnasol i drwyddedau gweithredu sy'n rheoli'r ffordd y dylai'r ardal sy'n cynnwys y peiriannau categori C gael ei darlunio.
- 27.5 Disgwylir i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth y cynhaliwyd gwiriad cofnod troseddol addas gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar bob aelod o staff yn ei gyflogaeth.
- 28.0 Ffeiriau Teithio
- 28.1 Diffinnir ffeithiau teithio fel rhai sy'n darparu difyrion 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf' ar safle sydd wedi'i ddefnyddio ar gyfer ffeiriau am ddim mwy na 27 diwrnod fesul blwyddyn galendr.
- 28.2 Lle mae peiriannau categori D a/neu beiriannau hapchwarae cyfle cyfartal neu am wobr heb hawlen ar gael i'w defnyddio mewn ffeiriau teithio, cyfrifoldeb yr Awdurdod Trwyddedu yw sicrhau nad yw'r cyfleusterau ar gyfer gamblo yn ddim mwy na difyrrwch atodol
- 28.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried p'un a yw'r ymgeisydd yn dod o fewn diffiniad statudol ffair deithio.
- 28.4 Nodir bod yr uchafswm statudol o 27 diwrnod ar gyfer defnyddio'r tir fel ffair fesul blwyddyn galendr, ac mae'n berthnasol i'r darn o dir lle cynhelir y ffeiriau, ni waeth p'un ai'r un ffair deithio neu wahanol ffeiriau teithio sy'n defnyddio'r tir.
- 28.5 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gweithio gyda'i Awdurdodau cyfagos i sicrhau bod unrhyw dir sy'n croesi ei ffiniau yn cael ei fonitro fel nad yw'r terfynau statudol yn cael eu torri.
- 29.0 Datganiadau Dros Dro
- 29.1 Gall datblygwyr ddymuno gwneud cais am ddatganiadau dros dro cyn ymrwymo i gcontract i brynu neu brydlesu tir i farnu a yw'n werth bwrw ymlaen â datblygiad. Nid oes angen i'r ymgeisydd ddal trwydded na

DINAS A SIR ABERTAWE

bod â'r hawl i feddiannu mangre er mwyn gwneud cais am ddatganiad dros dro.

29.2 Lle caiff sylwadau ynglŷn â cheisiadau am drwydded mangre eu gwneud ar ôl rhoi datganiad dros dro, ni all sylwadau pellach gan awdurdodau perthnasol na phartïon â buddiant gael eu hystyried oni bai eu bod yn ymwneud â materion nad oedd modd ymdrin â hwy yn y cam datganiad dros dro, neu maent yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r ymgeisydd. Yn ogystal, gall yr awdurdod wrthod y drwydded mangre (neu ei chaniatáu ar delerau sy'n wahanol i'r rhai sydd wedi'u hatodi at y datganiad dros dro) dim ond trwy gyfeirio at faterion:

- (a) nad oedd modd i wrthwynebwyr eu codi yn y cam datganiad dros dro; neu
- (b) faterion sydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r gweithredwr; neu
- (c) lle nad yw'r fangre wedi'i hadeiladu yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais. Mae'n rhaid i hyn fod yn newid sylweddol i'r cynllun. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n nodi y gall drafod unrhyw bryderon sydd ganddo gyda'r ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad.

30.0 Adolygiadau

30.1 Gall yr Awdurdod Trwyddedu gychwyn adolygiad o drwydded mangre neu gall adolygu trwydded mangre ar ôl derbyn cais gan awdurdod cyfrifol neu barti â buddiant.

30.2 Mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ganiatáu cais am adolygiad oni bai ei fod yn penderfynu gwrthod y cais ar y sail bod y cais i'w adolygu:-

- yn amherthnasol mewn perthynas â'r Canllawiau, y codau ymarfer perthnasol, y Polisi neu'r amcanion trwyddedu;
- yn wacsaw;
- yn flinderus;
- yn sicr ddim yn achosi i'r Awdurdod ddiwygio, diddymu neu atal y drwydded;
- yn sylweddol yr un fath â'r sail a nodwyd mewn cais blaenorol yn ymwneud â'r un fangre. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers y cais blaenorol wrth ystyried y pwynt hwn;
- yn sylweddol yr un fath â'r sylwadau a wnaed ar yr adeg yr ystyriwyd y cais am drwydded mangre. Bydd yr Awdurdod

DINAS A SIR ABERTAWE

Trwyddedu'n ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r cais blaenorol gael ei ystyried ac ni fydd yn adolygu'r drwydded ar sail yr un dadleuon a ystyriwyd ar roi trwydded mangre.

- 30.3 Diben yr adolygiad fydd penderfynu a ddylai'r Awdurdod Trwyddedu gymryd unrhyw gamau'n gysylltiedig â'r drwydded. Os oes cyfiawnhad dros gymryd camau, yr opsiynau sydd ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu yw:
- ychwanegu, tynnu neu ddiwygio amod trwydded a bennwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu;
 - eithrio amod diofyn a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (e.e. oriau agor) neu ddileu neu ddiwygio eithriad o'r fath;
 - atal y drwydded mangre am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis; a
 - diddymu'r drwydded mangre.
- 30.4 Wrth benderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd ar ôl adolygiad, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr egwyddorion a bennir yn Adran 153 y Ddeddf, yn ogystal ag unrhyw sylwadau perthnasol.
- 30.5 Yn benodol, gall yr Awdurdod Trwyddedu gychwyn adolygiad o drwydded mangre ar y sail nad yw daliwr trwydded mangre wedi darparu cyfleusterau gamblo ar y fangre. Diben hyn yw atal pobl rhag gwneud cais am drwydded mewn modd hapfasnachol heb fwriadu ei defnyddio.
- 31.0 Hawlenni / Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro a Defnydd Achlysurol
- 31.1 Hawlenni - Mae'r Ddeddf yn cyflwyno ystod o hawlenni a roddir gan Awdurdodau Trwyddedu pan fydd mangre'n darparu cyfleuster gamblo a naill ai mae'r arian betio a'r gwobrau yn isel iawn neu nid gamblo yw prif swyddogaeth y fangre.
- 32.0 Canolfannau Adloniant Teulu Didrwydded - Hawlenni Peiriannau Hapchwarae
- 32.1 Lle nad oes gan fangre drwydded mangre ond mae'n dymuno darparu peiriannau hapchwarae Categori D yn unig, gellir gwneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am hawlen.
- 32.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr ddangos bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i amddiffyn plant rhag niwed. Nid yw niwed yn y cyd-destun hwn yn gyfyngedig i niwed drwy gamblo, ond mae'n cynnwys ystyriaethau amddiffyn plant ehangach. Caiff

DINAS A SIR ABERTAWE

effeithlonrwydd y cyfryw bolisiau a gweithdrefnau ei ystyried ar eu rhinweddau. Gallant gynnwys hyfforddi staff ynglŷn ag amheuan bod plant ysgol yn triwanta, sut i ymdrin â phlant ifanc iawn heb eu goruchwyllo neu blant sy'n achosi problemau yn y fangre neu'r cyffiniau. Yn unol â'r Canllawiau, bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth lawn o'r uchafswm y gellir ei fetio a gwobrau mwyaf y gamblo a ganiateir mewn Canolfan Adloniant Teulu ddirwydded, nad oes ganddynt unrhyw euogfarnau perthnasol a bod y staff wedi'u hyfforddi i ddeall yn llawn yr uchafswm y gellir ei fetio a'r gwobrau mwyaf.

32.3 Canolfannau Adloniant Teulu didrwydded yw mangreoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer gwneud peiriannau hapchwarae ar gael i'w defnyddio, felly, maent yn eithrio unrhyw fangre a ddefnyddir yn bennaf at unrhyw ddibenion eraill, e.e. ffreuturau, siopau bwydydd cyflym parod, canolfannau hamdden, garejys a gorsafoedd petrol, swyddfeydd tacsï.

32.4 Ni all yr Awdurdod Trwyddedu atodi amodau i'r math hwn o hawlen.

32.5 Disgwylir i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth bod gwiriad cofnod troseddol addas gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) wedi'i gynnal ar bob aelod o staff yn ei gyflogaeth.

33.0 Mangreoedd Trwyddedig i Gyflenwi Alcohol

33.1 Mae'r Ddeddf yn darparu hawl awtomatig i ddeiliaid trwydded alcohol wneud 2 beiriant hapchwarae categori C neu D ar gael i'w defnyddio mewn mangreoedd wedi'u trwyddedu i werth alcohol i'w yfed yn y fangre. I fanteisio ar yr hawl hon, rhaid i'r sawl sy'n dal y drwydded alcohol hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a thalu'r ffi ragnodedig.

33.2 Nid gweithdrefn awdurdodi yw hon gan nad oes gan yr Awdurdod Trwyddedu unrhyw ddisgresiwn i ystyried yr hysbysiad na'i wrthod. Gall yr Awdurdod Trwyddedu, fodd bynnag, ddileu'r awdurdodiad awtomatig mewn perthynas ag unrhyw fangre benodol os:

- nad yw'r ddarpariaeth peiriannau'n rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu;
- cynhaliwyd hapchwarae yn y fangre sy'n torri amod adran 282 y Ddeddf Gamblo (h.y. y darparwyd hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu, y darparwyd ffi ac y cydymffurfiwyd ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo am leoliad a gweithrediad y peiriant);
- defnyddir y fangre at ddiben hapchwarae yn bennaf; neu
- cyflawnwyd trosedd o dan y Ddeddf Gamblo yn y fangre.

DINAS A SIR ABERTAWE

- 33.3 Gall Awdurdodau Trwyddedu roi hawlenni peiriannau hapchwarae i fangreoedd trwyddedig ar gyfer unrhyw nifer o beiriannau categori C neu D. Bydd hyn yn disodli ac nid yn ychwanegol at yr hawl awtomatig i ddau beiriant. Os yw deiliad trwydded alcohol ar gyfer mangre yn dymuno cael mwy na 2 beiriant, yna rhaid i gais am hawlen gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu. Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried y cais yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, unrhyw arweiniad a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo o dan Adran 25 Deddf Gamblo 2005, ac unrhyw faterion sy'n berthnasol yn eu barn nhw.
- 33.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn y caiff y cyfryw faterion eu penderfynu ar sail achos wrth achos ond, yn gyffredinol, rhoddir ystyriaeth i'r angen i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio gan gamblo, a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau nad yw'r rhai o dan 18 oed yn cael mynediad i'r peiriannau hapchwarae categori C i oedolion yn unig.
- 33.5 Gall mesurau a all fodloni'r Awdurdod na fydd unrhyw fynediad gynnwys bod y peiriannu i oedolion wedi'u lleoli yng ngolwg y bar, neu yng ngolwg staff enwebedig a fydd yn monitro nad yw'r peiriannau yn cael eu defnyddio gan y rhai dan 18 oed. Gall hysbysiadau ac arwyddion helpu hefyd.
- 33.6 O ran diogelu pobl agored i niwed, gall ymgeiswyr ddymuno ystyried darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau megis GamCare.
- 33.7 Cydnabyddir bod rhai deiliaid trwyddedau alcohol yn dymuno darparu peiriannau hapchwarae mewn ardaloedd nad yw eu trwydded alcohol yn eu cwmpasu. Byddai hyn yn mynnu gwneud cais am drwydded mangre ac mae'n debygol yr ymdrinnir â hyn fel cais am drwydded mangre Canolfan Hapchwarae Oedolion.
- 33.8 Gall yr Awdurdod Trwyddedu gytuno i'r cais gan bennu nifer lai o beiriannau a/neu gategori gwahanol o beiriannau na hynny y gwnaed cais amdanynt. Ni ellir atodi amodau (heblaw am y rhain).
- 33.9 Rhaid i ddeiliad hawlen gydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo ynglŷn â lleoliad a gweithrediad y peiriannau.
- 33.10 Mae llawer o gategoriâu peiriannau hapchwarae a ganiateir mewn mangre drwyddedig a mangreoedd eraill, a phennir nifer y peiriannau o'r fath y gellir eu caniatáu ym mhob math o fangre gamblo yn y

DINAS A SIR ABERTAWE

Ddeddf. Nid yw'r pŵer gan y Cyngor i bennu terfynau gwahanol nac i ehangu ymhellach neu gyfyngu ar y categorïau peiriannau a ganiateir. Yr eithriad i hyn yw mangreoedd â thrwydded alcohol sy'n dal hawlenni peiriannau hapchwarae, lle mae disgresiwn gan awdurdodau trwyddedu i bennu nifer y peiriannau hapchwarae a ganiateir. Yn ogystal, caiff terfynau eu gosod ar wahân yn y Ddeddf ar gyfer rhai mathau o hawlenni a roddir gan awdurdodau trwyddedu.

34.0 Hawlenni Hapchwarae Clwb

34.1 Gall yr Awdurdod Trwyddedu roi hawlenni hapchwarae clwb neu hawlenni peiriannau clwb i glybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr (ond nid clybiau masnachol). Mae'r rhain yn galluogi mangreoedd i ddarparu peiriannau hapchwarae cyfle cyfartal a gemau siawns fel y rhagnodir mewn rheoliadau. Mae hapchwarae siawns gyfartal yn cynnwys gemau fel pocer neu bingo lle mae'r siawnsiau yr un mor ffafriol i'r holl gyfranogwyr ac nid yw chwaraewyr yn cystadlu yn erbyn banc. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gwrthod cais ar y seiliau canlynol yn unig:

- nid yw'r ymgeisydd yn bodloni gofynion clwb aelodau neu fasnachol neu sefydliad lles glowyr ac felly nid oes ganddo hawl i dderbyn y math o hawlen y gwnaeth gais amdani;
- defnyddir mangre'r ymgeisydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc;
- cyflawnwyd trosedd o dan y Ddeddf neu torrwyd un o amodau hawlen gan yr ymgeisydd wrth ddarparu cyfleusterau hapchwarae;
- mae hawlen yr oedd yr ymgeisydd yn ei dal wedi cael ei diddymu yn y deng mlynedd blaenorol; neu
- cyflwynwyd gwrthwynebiad gan y Comisiwn Gamblo neu'r heddlu.

34.2 Mae hawlenni hapchwarae clwb yn caniatáu darparu dim mwy na thri pheiriant hapchwarae. Gall y rhain fod o gategoriâu B3A, B4, C neu D. Dim ond un peiriant B3A y gellir ei leoli fel rhan o'r hawl hon. Caniateir i'r clwb ddewis y cyfuniad o beiriannau yn ei fangre. Gall yr Awdurdod Trwyddedu roi neu wrthod hawlen ond ni all atodi unrhyw amodau at hawlen.

34.3 Os nad yw Clwb Aelodau neu Sefydliad Lles Glowyr yn dymuno cael yr ystod lawn o gyfleusterau a ganiateir gan yr Hawlen Hapchwarae Clwb, gallant wneud cais am Hawlen Peiriannau Clwb. Mae hyn yn

DINAS A SIR ABERTAWE

awdurdodi'r deiliad i gael hyd at dri o beiriannau hapchwarae categorïau B3A, B4, C a D.

- 35.0 Hapchwarae am Wobrau a Hawlenni Hapchwarae am Wobrau
- 35.1 Mae hapchwarae yn hapchwarae am wobrau os nad yw natur a maint y wobr yn cael eu pennu gan nifer y bobl sy'n chwarae neu'r swm a dalwyd am yr hapchwarae neu a godwyd gan yr hapchwarae. Mae hawlen hapchwarae am wobrau yn hawlen a roddir gan yr Awdurdod i awdurdodi darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae gyda gwobrau mewn mangre benodedig.
- 35.2 Dim ond person sy'n meddiannu neu sy'n bwriadu meddiannu'r fangre berthnasol all wneud cais am hawlen, ac os yw'r ymgeisydd yn unigolyn, rhaid iddo/iddi fod yn 18 oed neu'n hŷn. Ni ellir gwneud cais am hawlen os oes trwydded mangre neu hawlen hapchwarae clwb yn weithredol ar gyfer yr un fangre.
- 35.3 Disgwylir i'r ymgeisydd amlinellu'r mathau o hapchwarae y bwriedir eu cynnig ac i ddangos eu bod yn deall y cyfyngiadau ar arian betio a gwobrau a bennir mewn rheoliadau, a bod yr hapchwarae yn cael ei gynnig o fewn y gyfraith.
- 35.4 Ni all yr Awdurdod Trwyddedu atodi amodau at y math hwn o hawlen.
- 36.0 Hysbysiadau Defnydd Dros Dro
- 36.1 Mae Hysbysiadau o ddefnydd dros dro'n caniatáu defnyddio mangre at ddibenion gamblo lle nad oes trwydded mangre ond mae gweithredwr gamblo'n dymuno defnyddio'r fangre dros dro i ddarparu cyfleusterau gamblo. Byddai mangreoedd y gellid ystyried eu bod yn addas ar gyfer hysbysiad defnydd dros dro yn cynnwys gwestai, canolfannau cynadledda a lleoliadau chwaraeon.
- 36.2 Dim ond i berson neu gwmni sydd â thrwydded weithredu berthnasol y gellir rhoi hysbysiad defnydd dros dro. Er enghraifft, gallai deiliad trwydded weithredu betio wneud cais i ddarparu cyfleusterau betio mewn twrnamaint snwcer.
- 36.3 Mae'r math o gamblo y gellir ei awdurdodi gan hysbysiadau defnydd dros dro wedi'i ragnodi gan reoliadau. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried gwrthwynebu hysbysiadau lle mae'n ymddangos mai eu heffaith fyddai caniatáu gamblo rheolaidd mewn lle y gellid ei ddisgrifio fel un set o fangreoedd.
- 37.0 Hysbysiadau Defnydd Achlysurol

DINAS A SIR ABERTAWE

- 37.1 Lle ceir betio ar drac ar wyth diwrnod neu lai mewn blwyddyn galendr, gellir caniatáu betio gan hysbysiad defnydd achlysurol heb yr angen am drwydded mangre lawn. Rhaid i hysbysiad defnydd achlysurol gael ei gyflwyno ar gyfer bob diwrnod y mae betio i'w gynnal h.y. byddai 3 diwrnod olynol yn mynnu 3 hysbysiad defnydd achlysurol.
- 37.2 Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau, ar yr amod na fydd yr hysbysiad yn arwain at wneud cyfleusterau betio ar gael am fwy nag 8 diwrnod mewn blwyddyn galendr. Bydd yr Awdurdod Trwydded, fodd bynnag, yn ystyried diffiniad 'trac' a ph'un a ganiateir y defnydd o hysbysiadau defnydd achlysurol.
- 38.0 Cofrestru Loteriau Cymdeithasau Bach
- 38.1 Wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â Loteriau, rhaid i'r Awdurdod roi ystyriaeth i'r Ddeddf, y Canllawiau ac unrhyw Reoliadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 39.0 Amcanion Trwyddedu
- 39.1 Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, yn enwedig mewn perthynas â thrwyddedau mangre, hysbysiadau defnydd dros dro a hawlenni, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu.
- 39.2 Amcan 1 - Atal gamblo rhag dod yn ffynhonnell trosedd ac anrhefn, bod yn gysylltiedig â throsedd ac anrhefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi troseddu.
- 39.2.1 Mae'r Comisiwn yn chwarae rhan arweiniol i atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell troseddu.
- 39.2.2 Bydd rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais i'r Awdurdod am drwydded mangre feddu ar drwydded weithredu gan y Comisiwn cyn y gellir rhoi trwydded, fel na fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n pryderu ynghylch addasrwydd ymgeisydd. Lle mae pryderon ynghylch addasrwydd person yn codi, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n dod â'r pryderon hynny i sylw'r Comisiwn yn ddi-oed.
- 39.2.3 Bydd yr Awdurdod yn ystyried lleoliad arfaethedig mangre gamblo o ran yr amcan hwn. Os oes gan ardal broblemau arbennig gydag anrhefn, trosedd cyfundrefnol ac ati, bydd yr Awdurdod yn ystyried yn ofalus p'un a yw mangreoedd gamblo yn addas i'w lleoli yno, a ph'un a allai rheolaethau fod yn briodol er mwyn atal mangre rhag cael ei

DINAS A SIR ABERTAWE

chysylltu gyda, neu ei defnyddio i gefnogi troseddu. Gallai hyn gynnwys amodau ar y drwydded mangre, fel darparu goruchwylwyr drws.

39.2.4 Bydd yr Awdurdod yn ceisio mynd i'r afael â materion anhrefn o dan y Ddeddf. Bwriedir i anhrefn olygu gweithgarwch sy'n fwy difrifol a tharfol na niwsans. Gellid ystyried bod aflonyddwch yn ddigon difrifol i fod yn gyfystyr ag anhrefn os oedd angen cymorth yr heddlu i ddelio ag ef. Ffactor arall y mae'r Awdurdod yn debygol o'i ystyried yw pa mor fygythiol oedd yr ymddygiad i'r rheiny a oedd yn gallu ei weld neu ei glywed.

39.2.5 Bydd yr Awdurdod, wrth benderfynu ar geisiadau, yn ystyried p'un a fydd caniatáu Trwydded Mangre yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anhrefn.

39.2.6 Anogir ymgeiswyr i drafod y gweithdrefnau atal troseddu yn eu mangreoedd gyda swyddogion trwyddedu'r Awdurdod a swyddogion o Heddlu De Cymru cyn gwneud cais ffurfiol.

39.2.7 Wrth ystyried ceisiadau am drwydded, bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth benodol i'r canlynol:-

- Dyluniad a gosodiad y mangreoedd;
- Yr hyfforddiant a roddwyd i staff mewn mesurau atal troseddu sy'n briodol i'r mangreoedd hynny;
- Nodweddion diogelwch ffisegol sydd wedi'u gosod yn y mangreoedd. Gallai hyn gynnwys materion fel lleoliad cofrestrï arian parod neu teledu cylch cyfyng safonol sydd wedi'i osod;
- Lle mae mangreoedd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau oedran, y gweithdrefnau sydd ar waith i gynnal gwiriadau dilysu oedran;
- Y tebygolrwydd o unrhyw drais, problem o ran y drefn gyhoeddus neu broblem blismona, pe bai'r drwydded yn cael ei rhoi.

39.3 Amcan 2 - Sicrhau bod gamblo'n digwydd mewn modd teg ac agored

39.3.1 Yn gyffredinol, ni fyddai'r Comisiwn Gamblo'n disgwyl i Awdurdodau ymwneud â sicrhau y cynhelir gamblo mewn modd teg ac agored, gan y bydd hwn yn fater naill ai i reolwyr y busnes gamblo ac yn berthnasol i'r Drwydded Weithredu felly, neu bydd mewn perthynas ag addasrwydd a gweithredoedd unigolyn, ac yn berthnasol i'r Drwydded Bersonol felly. Mae'r ddwy drwydded hyn yn gyfrifoldeb y Comisiwn Gamblo.

DINAS A SIR ABERTAWE

- 39.3.2 Gan na fydd gweithredwyr trac, o angenrheidrwydd, yn meddu ar drwydded weithredu gan y Comisiwn Gamblo, gall yr Awdurdod, mewn rhai amgylchiadau, fynnu amodau trwydded i sicrhau bod yr amgylchedd lle mae betio'n digwydd yn addas.
- 39.4 Amcan 3 - Diogelu plant a phobl eraill agored i niwed rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio gan gamblo.
- 39.4.1 Mae'r Awdurdod wedi nodi'r Canllawiau bod yr amcan hwn yn golygu y dylai plant a phobl ifanc gael eu hatal rhag cymryd rhan mewn gamblo ac y dylid eu hatal rhag mynd i mewn i'r mangreoedd gamblo hynny sy'n amgylcheddau i oedolion yn unig. Bydd yr Awdurdod, felly, yn ystyried fel yr awgrymwyd yn y Canllawiau, p'un a yw mesurau penodol yn ofynnol mewn mangreoedd penodol, mewn perthynas â'r amcan hwn.
- 39.4.2 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol hefyd o Godau Ymarfer y Comisiwn Gamblo mewn perthynas â mangreoedd penodol.
- 39.4.3 Nodir nad yw'r Comisiwn Gamblo yn ceisio diffinio "pobl agored i niwed" ond mae'n datgan "y bydd, at ddibenion rheoleiddio, yn rhagdybio bod y grŵp hwn yn cynnwys pobl sy'n gamblo mwy nag y maent eisiau ei wneud; pobl sy'n gamblo y tu hwnt i'w modd; a phobl nad ydynt, efallai, yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus neu gytbwys ynglŷn â gamblo oherwydd nam meddyliol, alcohol neu gyffuriau." Bydd yr Awdurdod hwn yn ystyried yr amcan trwyddedu hwn ar sail achos wrth achos.
- 39.4.4 Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod cyfyngiadau ar hysbysebu ar gyfer mangreoedd fel nad yw cynhyrchion gamblo wedi'u targedu at blant neu'n cael eu hysbysebu mewn ffordd sy'n eu gwneud nhw'n arbennig o ddeniadol i blant.
- 39.4.5 Bydd yr Awdurdod yn ymgynghori â Heddlu De Cymru a'r Prif Swyddog ar gyfer Diogelu Ansawdd a Pherfformiad, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Phrif Swyddog Diogelu a Lles Dinas a Sir Abertawe ar unrhyw gais sy'n dynodi y gallai fod pryderon ynghylch mynediad i blant neu bobl agored i niwed.
- 39.4.6 Mae'r Canllawiau yn amlinellu ystyriaethau y mae'n rhaid i weithredwr eu hystyried er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rhag cael mynediad i fangreoedd gamblo.
- 39.4.7 Mae'r LCCP yn rhagnodi'r modd y mae'n rhaid i weithredwyr atal plant rhag defnyddio gweithgareddau hapchwarae neu gamblo sydd wedi'u

DINAS A SIR ABERTAWE

cyfyngu o ran oedran, yn enwedig lle mae peiriannau hapchwarae wedi'u trwyddedu.

39.4.8 Bydd yr Awdurdod yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu mewn perthynas â materion fel:

- Prawf o oedran;
- Teledu cylch cyfyng
- Goruchwyliaeth mynedfeydd/ardaloedd peiriannau;
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol;
- Lleoliad mynedfa/peiriannau hapchwarae;
- Hysbysiadau/arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunaneithrio, h.y. pan fydd rhywun yn gofyn i weithredwr i wrthod derbyn ei gwsmeriaeth i'w atal rhag gamblo;
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn gynhwysfawr. Arwydd o fesurau enghreifftiol yn unig ydyw.

39.4.9 Bydd yr Awdurdod yn barnu rhinweddau unigol pob cais cyn penderfynu p'un ai i bennu amodau i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed ar gategoriau mangreoedd penodol. Gallai hyn gynnwys gofynion megis:-

- Arwyddion priodol ar gyfer ardaloedd oedolion yn unig;
- Goruchwyllo mynedfeydd;
- Defnyddio goruchwylwyr;
- Gwahanu ardaloedd gamblo o ardaloedd a fynychir gan blant;
- Goruchwyllo peiriannau hapchwarae mewn mangreoedd gamblo nad ydynt yn benodol i oedolion.

39.4.10 Bydd unrhyw amodau a atodir yn gymesur, ac yn:

- Berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn addas fel cyfleuster gamblo;
- Uniongyrchol gysylltiedig â'r fangre a'r math o drwydded y gwnaed cais amdani;
- Teg a rhesymol mewn perthynas â graddfa a'r math o fangre; ac yn
- Rhesymol ym mhob agwedd arall.

40.0 Aseidiadau Risg Lleol ar gyfer Gweithredwyr

DINAS A SIR ABERTAWE

- 40.1 Mae'r LCCP yn mynnu bod ymgeiswyr newydd a gweithredwyr mangreoedd presennol sy'n ceisio amrywio trwydded, yn asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu a grëir gan ddarparu cyfleusterau gamblo ym mhob un o'u mangreoedd. Mae'n ofynnol iddynt hefyd gael polisiâu, gweithdrefnau a mesurau rheoli ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau hynny.
- 40.2 Mae'n ofynnol i weithredwyr yn ôl y cod Cyfrifoldeb Cymdeithasol wneud yr asesiad risg ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu pan gyflwynir cais ar gyfer trwydded mangre newydd, amrywio trwydded mangre neu fel arall ar gais. Bydd hyn yn ffurfio rhan o drefn arolygu'r Awdurdod Trwyddedu a gellir gofyn amdano pan fydd swyddogion yn ymchwilio i gwynion. Byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i'r asesiad risg ardal leol gael ei gadw yn y fangre unigol a bod ar gael i'w archwilio.
- 40.3 Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu nodi materion y disgwyliant i weithredwr roi ystyriaeth iddynt yn yr asesiad risg yn ei ddatganiad polisi, a byddai'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn argymhell bod y materion canlynol yn cael eu hystyried gan weithredwyr pan fyddant yn cynnal eu hasesiad risg:
- Gosodiad y fangre, yn enwedig mynediad i'r fangre gan blant a phobl agored i niwed;
 - Lleoliad y fangre, yn enwedig agosrwydd at fangreoedd/ardaloedd lle gellir disgwyl presenoldeb plant/pobl agored i niwed e.e. ysgolion, parciau, mannau chwarae, canolfannau adloniant fel sinemâu ac aleau bowlio, siopau, caffis, safleoedd bws, mangreoedd â thrwyddedau alcohol, canolfannau meddygol, cartrefi gofal, safleoedd arian, canolfannau trin ar gyfer caethiwed, safleoedd gamblo eraill, banciau, swyddfeydd post;
 - Lleoliad y fangre mewn perthynas â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau ieuencid, graffiti/tagio, yfed ar y stryd/yfed dan oed, anhrefn, gweithgareddau delio cyffuriau ac ati;
 - Digwyddiadau gamblo dan oed;
 - Manylion yn ymwneud â hunaneithriadau;
 - Patrymau mewn gamblo e.e. yn cyd-daro â thaliadau budd-dal, taliadau cyflog;
 - Trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol yn ymwneud â hunaneithriadau a thueddiadau hapchwarae
- 40.4 Gallai materion eraill y gellid eu hystyried gynnwys:
- Agosrwydd at eglwysi, mosgiau, templau neu unrhyw fan addoli arall.

DINAS A SIR ABERTAWE

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, a rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i ffactorau perthnasol eraill a nodir nad ydynt yn y rhestr hon.

41.0 Proffiliau Ardal Leol

41.1 Mae'r Canllawiau presennol yn cyflwyno cysyniad proffiliau ardal leol ar gyfer Awdurdodau fel modd o fapio ardaloedd o bryder yn lleol. Nid oes gofyniad i Awdurdod gael proffil ardal leol, neu os oes proffil ardal leol ganddo, nid oes gofyniad i'w gynnwys yn y Polisi.

41.2 Lle mae'r Awdurdod yn datblygu proffil ardal leol, bydd hwn yn cael ei gynnwys mewn dogfen ar wahân ac fe'i gwneir ar gael ar y cyd â'r Polisi.

42.0 Gwneud Penderfyniadau

42.1 Gall pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod Trwyddedu o dan y Ddeddf gael eu cyflawni gan y Pwyllgor Trwyddedu, gan Is-bwyllgor neu gan un neu fwy o swyddogion yn gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig.

42.2 Ystyrir y bydd llawer o'r swyddogaethau yn weinyddol yn bennaf heb unrhyw feysydd cynnen canfyddedig. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd, caiff y rhain, gan mwyaf, eu cyflawni gan swyddogion.

42.3 Mae Atodiad D yn nodi dirprwyaeth argymelledig swyddogaethau a phenderfyniadau gan ganllawiau. Gall yr Awdurdod Trwyddedu, serch hynny, gyfeirio unrhyw fater at y Pwyllgor Trwyddedu neu Is-bwyllgor.

43.0 Gweithdrefn Apelau

43.1 Pennir darpariaethau apelio ar gyfer partïon sy'n anfodlon â phenderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu yn Adrannau 206 i 209 Deddf 2005. Mae'n rhaid cyflwyno apelau i'r Llys Ynadon ar gyfer ardal yr Awdurdod Trwyddedu a ystyriodd y cais.

43.2 Mae'n rhaid i'r apelydd gychwyn apêl trwy roi hysbysiad o'r apêl i'r Clerc i'r Ynadon, Llys Ynadon Abertawe, Grove Place, Abertawe SA1 5DB, cyn pen 21 o ddiwrnodau, gan ddechrau gyda'r diwrnod pan hysbyswyd yr apelydd gan yr Awdurdod Trwyddedu am y penderfyniad sy'n destun yr apêl.

43.3 Wrth benderfynu ar apêl, gall y Llys:

- Wrthod yr apêl;

DINAS A SIR ABERTAWE

- Disodli'r penderfyniad yr apelir yn ei erbyn gydag unrhyw benderfyniad arall y gallai'r Awdurdod Trwyddedu fod wedi'i wneud;
- Ailgyfeirio'r achos i'r Awdurdod Trwyddedu i gael gwared ar yr apêl yn unol â chyfarwyddyd y Llys;
- Gwneud gorchymyn am gostau.

44.0 Rhesymau am Benderfyniadau

44.1 Gan ragweld apelau o'r fath, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi rhesymau cynhwysfawr am ei benderfyniadau. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu ymdrin ag i ba raddau y gwnaed penderfyniadau o ran unrhyw godau ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, yn rhesymol gyson â'r amcanon trwyddedu ac yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

45.0 Gweithredu Penderfyniad y Llys Ynadon

45.1 Cyn gynted ag yr hysbyswyd pob parti am benderfyniad y Llys Ynadon, ni fydd y Cyngor yn oedi rhag ei weithredu a chymerir camau gweithredu angenrheidiol ar unwaith oni bai bod gorchymyn gan lys uwch i atal gweithredu o'r fath (er enghraifft, o ganlyniad i adolygiad barnwrol cyfredol). Nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer unrhyw apêl arall yn erbyn penderfyniad y Llys Ynadon.

46.0 Pryderon ynghylch Mangreoedd Trwyddedig

46.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedig yn ymchwilio i gŵynion mewn perthynas â mangreoedd trwyddedig o ran materion yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu y mae ganddo gyfrifoldeb amdanynt.

46.2 Lle mae parti â buddiant naill ai wedi gwneud sylw dilys ynghylch mangre drwyddedig neu gais dilys am adolygu trwydded, gall yr Awdurdod Trwyddedu, i ddechrau, drefnu cyfarfod i fynd i'r afael â'r materion pryder a'u hegluro.

46.3 Ni fydd y broses hon yn drech na hawl unrhyw barti i wrthod cymryd rhan mewn unrhyw gyfarfod neu broses gyfryngu.

47.0 Rhwydwaith Rhannu Gwybodaeth - Gweithredwyr

47.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n annog ac yn cefnogi gweithredwyr lleol i greu a chynnal rhwydwaith rhannu gwybodaeth i drafod materion gamblwyr problemus sy'n cael eu hadnabod. Bydd hyn yn gyfle hefyd i weithredwyr drafod materion gyda'r swyddogion trwyddedu.

DINAS A SIR ABERTAWE

48.0 Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Gamblo 2005 neu'r Polisi Gamblo hwn, cysylltwch â'r Adran Drwyddedu yn y cyfeiriad canlynol:

Yr Adran Drwyddedu
Y Gyfarwyddiaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd
Dinas a Sir Abertawe
Y Ganolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

Neu:

Ffôn: 01792 635600
E-bost: evh.licensing@swansea.gov.uk
Gwefan: www.abertawe.gov.uk

Mae gwybodaeth ar gael hefyd gan:-

Y Comisiwn Gamblo

Victoria Square House
Victoria Square
Birmingham
B2 4BP

Ffôn: 0121 230 6500
Ffacs: 0121 237 2236

E-bost: info@gamblingcommission.gov.uk
Gwefan: www.gamblingcommission.gov.uk

Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon


100 Parliament Street
London
SW1A 2BQ

Ffôn: 020 7211 2210

E-bost: enquiries@dcms.gov.uk
Gwefan: www.culture.gov.uk

DINAS A SIR ABERTAWE

ATODIAD A



DINAS A SIR ABERTAWE

POLISI GAMBLO
31.01.2022

ATODIAD B - Ymgynghoreion

Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ymgynghori â'r canlynol ar gynnwys y Polisi Gamblo hwn:-

- Y Cyngor Betio a Hapchwarae
- Cymdeithas Fasnach Darparwyr Diddanwch Prydain (BACTA)
- Y Gymdeithas Bingo
- Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
- Bwrdd Rasio Milgwn Prydain
- Undeb Clybiau a Sefydliadau
- GambleAware (Yr Ymddiriedolaeth Cyfrifoldeb mewn Gamblo yn flaenorol)
- GamCare
- Y Cyngor Loteriau
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
- Gwarchod Cymdogaeth
- Awdurdodau Cyfrifol:-
 - Prif Swyddog yr Heddlu
 - Yr Awdurdod Trwyddedu
 - Y Prif Swyddog Tân
 - Cyllid a Thollau EM
 - Iechyd yr Amgylchedd
 - Y Comisiwn Gamblo
 - Yr Adran Gynllunio
 - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Pwyllgor Trwyddedu
- Aelodau Etholedig Dinas a Sir Abertawe
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Cyngorau Cymuned
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

DINAS A SIR ABERTAWE

ATODIAD C

Dinas a Sir Abertawe

Trwydded Casino Bach – Egwyddorion a Meini Prawf

Egwyddorion	Meini Prawf – Manteision/Osgoi Anfanteision	Pwysigrwydd
Unrhyw ddarpariaeth a wneir ar gyfer diogelu plant a phobl eraill agored i niwed rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio yn sgil gamblo, boed yn y casino arfaethedig neu yn y gymuned ehangach	<p>Y graddau y gall ymgeisydd ddangos canlyniadau mesuradwy ar gyfer Abertawe o ran y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Ymrwymiad i werthuso effeithiau cymdeithasol gamblo a gallu i werthuso• Buddsoddi mewn cynlluniau gamblo problemus/cyllid ar gyfer rhaglenni triniaeth/cyllid i'r Ymddiriedolaeth Gamblo Cyfrifol• Mesurau gamblo problemus; gan gynnwys sut bydd yr ymgeisydd yn cyfrannu at addysg ar risgiau gamblo, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc.• Ymrwymiad lefel uchel amlwg gan reolwyr i gyfrifoldeb cymdeithasol.• Ymrwymiad i hyfforddiant staff ar faterion cyfrifoldeb cymdeithasol ac adnabod gamblo problemus.• Gweithredu cynlluniau hunaneithrio/ atal unigolion hunanwaharddedig rhag cael mynediad.• Marchnata/hysbysebu cyfrifol. Pwy fydd yn cael	(Uchel lawn/ Uchel/ Canolig)
		Uchel lawn

DINAS A SIR ABERTAWE

	<p>eu targedu?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Agosrwydd casino at ysgolion, plant, mannau addoli, poblogaethau ieuenctid a'r henoed. 	
Unrhyw ddarpariaeth a wneir ar gyfer atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, neu fod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei defnyddio i gefnogi troseddu.	<ul style="list-style-type: none"> • Camau a gymerir i hyrwyddo economi diogel min nos a'r nos. • Darparu teledu cylch cyfyng a mesurau diogelwch. • Cysylltu/ymgyngori gydag awdurdodau cyfrifol i hyrwyddo'r amcanion atal trosedd ac anhrefn o dan Ddeddf Gamblo 2005 a Deddf Trwyddedu 2003. 	Uchel lawn
	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu lefelau boddhaol o oruchwylwyr drws/ goruchwylwyr drws â chymwysterau priodol a thrwyddedig. • Cysylltu â swyddogion pensaernïol/atal troseddau'r heddlu i sicrhau, lle bo modd, bod cyfleoedd ar gyfer troseddu'n cael eu dileu. 	
Unrhyw ddarpariaeth a wneir ar gyfer sicrhau y cynhelir gamblo mewn modd teg ac agored	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu ardal/ystafell ar wahân i alluogi cwsmeriaid i ymgyswrtu â rheolau'r gemau. • Gweithdrefn gwynion deg ac effeithiol, y modd y caiff cwynion ac anghydfodau eu cofnodi a'u monitro. 	Uchel lawn
Effeithiau tebygol	Cyflogaeth:	Uchel lawn

DINAS A SIR ABERTAWE

<p>cais ar gyflogaeth ac adfywio yn Abertawe</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a grëir a/neu a ddiogelir o gyfnodau adeiladu a gweithredu'r casino; • Nifer y swyddi a grëir ar gyfer y rhai economaidd anweithgar a'r rhai di-waith yn y tymor hir; • Mesurau lliniaru mewn perthynas â swyddi a gollir. • Polisiâu cyflogaeth (cyflog, telerau, cydraddoldebau, hyfforddiant sgiliau). • Grymuso grwpiau difreintiedig lleol trwy gyflogaeth. • Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at fynd i'r afael ag amddifadedd, lefelau uchel o anweithgarwch economaidd a diweithdra tymor hir? • Datblygiad Staff – cyfleoedd i staff gael hyfforddiant a datblygu (gan gynnwys hyfforddiant sy'n arwain at ddyfarniadau wedi'u hachredu'n genedlaethol) ac i gyflawni dilyniant gyrfa. • Darparu cefnogaeth i sefydliadau addysg a hyfforddiant yn yr ardal; <p>Adfywio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y graddau y bydd y 	<p>Uchel lawn</p>
--	---	-------------------

DINAS A SIR ABERTAWE

	<p>cynigion yn gweithredu fel sbardun uniongyrchol ar gyfer datblygiad cydategol.</p>	
	<ul style="list-style-type: none"> • Y graddau y byddai'r datblygiad yn creu economi twristiaeth/hamdden amrywiol gydol y flwyddyn gyfan, fel cyflogaeth barhaol, a chynhyrchu buddsoddiadau pellach. • Camau a gymerir i ehangu'r ddemograffeg ymwelwyr. • Camau a gymerir i hyrwyddo economi lewyrchus yn ystod y nos. • Y graddau y mae'r datblygiad yn cynyddu'r ddarpariaeth gwasanaethau hamdden/ amwynderau diwylliannol o ansawdd uchel (fel gwestai 4*/5*, cyfleusterau cynadledau ac ati.) • Effeithiau lluosydd cadarnhaol ar y gymuned fusnes. • Cynigion ar gyfer gwneud cyfleoedd cadwyn gyflenwi a chyrchu ar gael i sefydliadau ac unigolion yn yr ardal. • Cynigion ar gyfer ymgysylltu â phartneriaethau'r gymuned leol, ac ar gyfer cyfrannu'n ariannol neu mewn ffordd arall at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol; 	

DINAS A SIR ABERTAWE

	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweddoldeb â'r strategaethau adfywio/cynllunio. • Ymrwymiad i werthuso effaith economaidd y casino ar Abertawe o dro i dro. 	
Dyluniad a lleoliad y datblygiad arfaethedig	<p>Dyluniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydweddoldeb â chynllun datblygu'r Cyngor a strategaethau cynllunio ategol. • Graddfa integreiddio â llwybrau symud presennol, adeiladau, defnyddiau, tirweddau, mannau agored a meysydd parcio strategol. • Darparu cyfleusterau cydategol eraill i greu datblygiad defnydd cymysg a chyrchfan llewyrchus. • Effaith ar ddatblygiadau cyfagos presennol, gan osgoi effaith andwyol ar feddianwyr cymdogol. • Cyrraedd safonau dylunio ac adeiladau uchel o rinwedd bensaernïol arwyddocaol. 	Uchel lawn
	<ul style="list-style-type: none"> • Mynd i'r afael â materion diogelwch ac atal troseddu yn nyluniad adeiladau a'r llwybrau o'u hamgylch. • Hygyrchedd drwy ddulliau teithio heblaw am y car preifat. • Hyrwyddo adeiladau a gosodiadau sy'n defnyddio 	

DINAS A SIR ABERTAWE

	<p>adnoddau'n effeithlon gan ddefnyddio technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy yn unol â meini prawf BREEAM a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwarchod unrhyw adeiladau rhestredig (a'u lleoliadau) a gwella ardaloedd cadwraeth. • Ymgysylltu â'r gymuned – cynigion ar gyfer ymgynghoriadau a chynnwys yn y dyluniad. <p>Lleoliad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cais yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun, ond yr ardal leol yn ffafrio lleoliad canol dinas neu leoliad tir llwyd ar y glannau i gyflawni amcanion adfywio. 	Uchel lawn
	<ul style="list-style-type: none"> • Y graddau y mae'r lleoliad arfaethedig yn llai tebygol neu'n fwy tebygol o arwain at golli cyfleuster hamdden presennol. • Effaith ar fusnesau a thrigolion cymdogol (yn ystod yr adeiladu a phan fydd yn gweithredu). • Y graddau y bydd y lleoliad arfaethedig yn hyrwyddo nifer yr ymwelwyr newydd ag Abertawe. 	
Ystod a natur cyfleusterau nad	<ul style="list-style-type: none"> • Ystod a natur gydategol cyfleusterau atodol eraill a 	Uchel

DINAS A SIR ABERTAWE

ydynt yn rhai gamblo i'w cynnig fel rhan o'r datblygiad arfaethedig.	gynigir o fewn a thu allan i'r datblygiad casino.	
Unrhyw gyfraniadau ariannol a chyfraniadau eraill.	<ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau maint y cyfraniadau ariannol a gynigir ac ar ba sail y byddant yn cael eu talu (e.e. taliad untro, mynegai blynyddol yn gysylltiedig â chyfraniadau am byth, canran o'r Arenillion Hapchwarae Gros ac ati). 	Uchel lawn
	<ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau taliadau ariannol a wneir ar gyfer cyflawni gweithrediadau neu fanteision yn hwyr, neu beidio â'u cyflawni. • Os yw'r cynnig yn cynnwys colli cyfleusterau presennol, a fydd cyfleusterau newydd yn cael eu rhoi yn eu lle, a ble? • Manteision diwylliannol uniongyrchol fel arddangos celf/artistiaid lleol. • Cymorth i gynlluniau cefnogol/diwylliannol/elusennol lleol. • Cyfathrebu, ymgynghori a gweithio mewn partneriaeth gyda Phartneriaethau Cymunedol lleol, yn enwedig Cymunedau yn Gyntaf. • Cyfrannu'n ariannol at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol ychwanegol. 	Canolig

DINAS A SIR ABERTAWE

	<ul style="list-style-type: none"> • Manteision eraill y mae'r ymgeisydd yn bwriadu eu darparu nad ydynt wedi'u disgrifio yn rhywle arall. 	
Y Gallu i Gyflawni	<ul style="list-style-type: none"> • Statws cytundeb datblygu llofnodedig wedi'i gymeradwyo (e.e. Cynllunio), gwarantau 3ydd parti. 	Uchel lawn
	<ul style="list-style-type: none"> • Graddfeydd amser ar gyfer gweithredu a chwblhau datblygiad a gweithrediadau. • Graddfa amser, cyfnod a'r ffurf ar gyfer cyflawni manteision arfaethedig. • Datblygwr/Gweithredwr – statws ariannol, hanes blaenorol yma a thramor, cynllun cynigion busnes clir a manwl. • Tystiolaeth o ymgynghori â Chyrff Statudol ac Awdurdodau Cyfrifol, i sicrhau cydymffurfio'n briodol ag unrhyw a phob Rheoliad Statudol a Deddfwriaeth. 	

DINAS A SIR ABERTAWE

ATODIAD CH – Tabl Dirprwyaethau Swyddogaethau Trwyddedu

MATER I YMDRIN AG EF	CYNGOR LLAWN	IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU	SWYDDOGION
Polisi Gamblo Tair Blynedd	X		
Polisi i beidio â chaniatáu casinos	X		
Pennu Ffi - pan fo'n briodol			X (i'w gymeradwyo gan y Weithrediaeth)
Cais am drwyddedau mangreoedd		Lle mae sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl	Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn/ lle mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Cais am amrywiad i drwydded		Lle mae sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl	Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn/ lle mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Cais am drosglwyddo trwydded		Lle mae sylwadau wedi'u derbyn gan y Comisiwn	Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn gan y Comisiwn
Cais am ddatganiad dros dro		Lle mae sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl	Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn/ lle mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Adolygu trwydded mangre		X	
Cais am hawlen hapchwarae clwb/hawlen peiriannau clwb		Lle mae sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl	Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn/ lle mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Canslo hawlen hapchwarae		X	

DINAS A SIR ABERTAWE

clwb/hawlen peiriannau clwb			
Ceisiadau am hawlenni eraill			X
Canslo hawlenni peiriannau hapchwarae mangreoedd trwyddedig			X
Ystyried hysbysiad defnydd dros dro			X
Penderfyniad i roi gwrth hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro		X	

X Yn dynodi'r lefel isaf y gellir dirprwyo penderfyniadau iddynt

DINAS A SIR ABERTAWE